Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Ymgynghoriad ar oruchwylio a chyllido gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 17 Gorffennaf 2026

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 11 Medi 2026

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Ymgynghoriad ar oruchwylio a chyllido gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

**Ymgynghoriad wedi'i baratoi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At sylw:** | Anelir yr ymgynghoriad hwn at Awdurdodau Lleol, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac eraill sy'n gweithio gyda phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. |
| **Cyfnod:** | Rhwng 17 Gorffennaf 2026 a 11 Medi 2026 |
| **Dylid anfon ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Youth Justice Policy Unit<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br>E-bost: MoJYouthJusticeComms@justice.gov.uk |
| **Sut mae ymateb:** | Cyflwynwch eich ymatebion drwy ddolen Consult Justice: https://consult.justice.gov.uk/youth-justice-policy/funding-youth-justice-services |
| **Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich safbwyntiau:** | Bydd cyfarfodydd i randdeiliaid yn cael eu cynnal ym mis Awst hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod. |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn 4 Rhagfyr 2026 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys


**Crynodeb gweithredol** **3**

Yr achos dros newid 3

Rhan A: Fframwaith perfformiad a goruchwylio newydd (o fis Ebrill 2027 ymlaen) 4

Rhan B: Diwygio cyllid (o fis Ebrill 2029) 5

Gweithio gyda'r sector 5

**Cyflwyniad** **6**

**Egwyddorion, gweledigaeth ac amcanion** **7**

Ein gweledigaeth 7

Yr egwyddorion sy'n sail i ddiwygio 7

Ein hamcanion 8

**Rhan A – Perfformiad a Goruchwyliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** **9**

Y trefniadau presennol 9

Yr Achos dros Newid 11

Y Cynigion 12

Fframwaith Goruchwylio Integredig 13

Disgwyliadau clir a chyson: Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Perfformiad Ansawdd 14

Fframwaith Perfformiad Ansawdd 19

Eglurder ar atebolrwydd partneriaeth: dull gweithredu haenog 20

Dull cymesur o adrodd a chydymffurfio 23

Dod ag ef at ei gilydd – fframwaith perfformiad integredig 28

**Rhan B – Cyllid sefydlog a chynaliadwy** **30**

Y trefniadau cyllido presennol 30

Yr Achos dros NewidMae sawl her gynhenid i'r trefniadau cyllido presennol: 31

Gwaith blaenorol i adolygu'r trefniadau cyllido presennol 32

Egwyddorion ar gyfer diwygio 35

Rheoli effaith newid 37

Cyllid cyfiawnder ieuenctid sydd wedi'i glustnodi ar hyn o bryd 38
Cryfhau cyfraniadau Partneriaeth 40

**Atodiad A: Economics By Design – Crynodeb o'r Fformiwla Ariannu Grant 42**

Fformiwla arfaethedig Economics by Design 42

**Holiadur 45**

**Gwybodaeth amdanoch chi 49**

**Manylion cyswllt/Sut mae ymateb 50**

Cwynion neu sylwadau 50
Copïau ychwanegol 50
Cyhoeddi'r ymateb 50
Grwpiau cynrychiadol 50
Cyfrinachedd 51

**Datganiad Cydraddoldeb 52**

Cydraddoldeb 52

**Egwyddorion ymgynghori 53**

# Crynodeb gweithredol

## Yr achos dros newid

Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn chwarae rhan unigryw ac anhepgor yn y system cyfiawnder ieuenctid, gan weithredu fel y cyfrwng aml-asiantaeth craidd ar gyfer atal troseddu ac aildroseddu gan blant. Dros y ddau ddegawd diwethaf, maent wedi helpu i sbarduno gostyngiadau sylweddol yn nifer y plant yn y system cyfiawnder ieuenctid, gan wella eu canlyniadau hirdymor a chadw ein cymunedau'n fwy diogel. Mae'r cynnydd hwn wedi cael ei sbarduno i raddau helaeth gan ymrwymiad a pherfformiad cryf gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gyffredinol, a'r partneriaethau aml-asiantaeth sy'n sail i ddarpariaeth leol effeithiol. Er bod llai o blant yn ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, mae gan gyfran uwch o'r rhai sy'n ymuno anghenion cymhleth, sy'n galw am gymorth mwy cydlynol ar draws nifer o asiantaethau. Mae cyfraddau aildroseddu hefyd yn parhau i fod yn gyson uchel, gydag oddeutu traean o blant yn mynd ymlaen i aildroseddu. Ar yr un pryd, mae pwysau cynyddol ar draws gwasanaethau cyhoeddus wedi effeithio ar allu partneriaid statudol i gyfrannu'n gyson at ddarparu cyfiawnder ieuenctid.

Nid yw'r dull cenedlaethol presennol o oruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid wedi cadw i fyny â'r newidiadau hyn. Mae'r trefniadau goruchwylio yn dameidiog, nid yw disgwyliadau bob amser yn alinio â realiti'r arferion presennol, ac nid yw'n glir pa ganlyniadau a ddefnyddir i asesu perfformiad lefel gwasanaeth unigol, o gymharu â'r rhai sy'n fwy dangosol o berfformiad partneriaethau effeithiol neu iechyd cyffredinol y system. Ar ben hynny, mae'r gofynion adrodd i lywodraeth ganolog yn rhy uchel, gan gymryd amser gweithwyr proffesiynol oddi wrth ddarparu ar gyfer plant, dioddefwyr a chymunedau - ac mae rhai yn y sector wedi mynegi canfyddiad nad yw'r wybodaeth a gesglir bob amser yn cyflawni diben clir.

Mae angen diwygio'r trefniadau cyllido ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd. Mae'r dull presennol a ddefnyddir i ddyrannu cyllid yn dibynnu ar hen ddata ac nid yw'n adlewyrchu angen lleol yn gyson, cymhlethdod cynyddol achosion na'r newid mewn ymarfer tuag at ymyrryd ac atal yn gynnar. Mae cyfraniadau partneriaid yn anghyson o ran graddfa a dibynadwyedd, gan greu loteri cod post o ran lefelau cyllid.

Fel y nodir yn *'Cutting Youth Crime. Changing Young Lives'*[1], mae'r llywodraeth wedi penderfynu y bydd y cyfrifoldeb dros oruchwylio, monitro perfformiad a gweinyddu'r grant craidd cyfiawnder ieuenctid yn genedlaethol yn trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ), gyda rôl y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) yn cael ei diwygio'n gorff gwella

[1] Cutting youth crime, changing young lives – GOV.UK

parhaus, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth arbenigol a hyrwyddo arferion gorau. Wrth i swyddogaethau gael eu trosglwyddo, rydym am ddiwygio ac ail-lunio'r system i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

**Ein dull o weithredu**
Rydym yn cynnig diwygio mewn dau gam:
- **o fis Ebrill 2027**: cyflwyno fframwaith perfformiad a goruchwylio cenedlaethol newydd
- **o fis Ebrill 2029**: diwygio'r dull o ariannu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

## Rhan A: Fframwaith perfformiad a goruchwylio newydd (o fis Ebrill 2027 ymlaen)

Rydym am gynnal system sy'n cael ei darparu'n lleol, wedi'i hategu gan ddisgwyliadau cenedlaethol cryfach, llwybrau uwchgyfeirio cliriach i lywodraeth ganolog ar gyfer materion partneriaeth, a dull mwy effeithiol o gefnogi dysgu a gwella ar draws gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Yn unol â'r bartneriaeth newydd rhwng y llywodraeth ganolog a'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a fynegwyd am y tro cyntaf yn natganiad polisi cyfiawnder ieuenctid Chwefror 2026 *'A Modern Youth Justice System: Foundations Fit for the Future,*[2] ac ehangwyd arno yn 'Cutting Youth Crime'. *Changing Young Lives'*, bydd y dull hwn yn seiliedig ar ymddiriedaeth mewn arweinwyr lleol i ddylunio a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion eu cymunedau. Yn gyfnewid am hyn, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gosod disgwyliadau clir ynghylch y safonau sylfaenol a ddisgwylir fel amod cyllido, gyda llwybr uwchgyfeirio i lywodraeth ganolog lle mae angen gweithredu i wella ymgysylltiad partneriaid neu lle mae materion ar lefel system yn cael eu nodi. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn datblygu canllawiau canolog i ddiffinio ymarfer o ansawdd uchel, a bydd y BCI diwygiedig yn parhau i gefnogi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol drwy ddysgu, gwella a rhannu arferion effeithiol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar nifer o feysydd i lywio'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer goruchwyliaeth genedlaethol:
- Safonau Cenedlaethol wedi'u diweddaru - y 'terfyn isaf' rydym yn disgwyl iddo fod ar waith fel amod o gyllid llywodraeth ganolog. Rydym yn ceisio barn ar ddwy ffordd bosibl o ddiweddaru a strwythuro safonau newydd - naill ai drwy gadw'r strwythur presennol (yn seiliedig ar wahanol 'gamau' y system cyfiawnder ieuenctid) a diweddaru'r cynnwys, neu drwy symud i strwythur newydd yn seiliedig ar feysydd thematig.
- Fframwaith Perfformiad Ansawdd newydd i ategu Safonau Cenedlaethol, a fydd yn diffinio sut beth yw ymarfer o ansawdd uchel ar lawr gwlad. Wedi'i wreiddio mewn

[2] A Modern Youth Justice Service: Foundations Fit for The Future – GOV.UK

tystiolaeth, byddai'r fframwaith yn cefnogi hunanasesu ar lefel leol, gan gefnogi gwelliant parhaus a gyrru ansawdd mwy cyson ar draws y sector.

- Mynegiant cliriach ar gyfer asesu perfformiad, gan wahaniaethu rhwng mesurau perfformiad ar lefel gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a'r rhai sy'n dangos perfformiad ar lefel partneriaeth neu system, gyda llwybr uwchgyfeirio i lywodraeth ganolog lle mae ymgysylltu â phartneriaethau yn effeithio ar ganlyniadau cyfiawnder ieuenctid. Mae hyn yn ymateb i adborth gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu dal yn atebol am ganlyniadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol
- gofynion adrodd symlach, sy'n canolbwyntio ar yr wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a chefnogi gwelliannau ar lefel gwasanaeth, partneriaeth a system. Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar ddiwygio gofynion ynghylch cynlluniau blynyddol cyfiawnder ieuenctid, hysbysiadau digwyddiadau difrifol a dulliau cymesur o gasglu gwybodaeth ansoddol am berfformiad lleol

## Rhan B: Diwygio cyllid (o fis Ebrill 2029)

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i unrhyw fframwaith perfformiad effeithiol fod yn seiliedig ar gyllid cynaliadwy sy'n cael ei ddyrannu'n dryloyw ac yn deg yn ôl yr angen. Mae cyllid aml-flwyddyn ar gyfer y grant craidd a Turnaround wedi cael ei gadarnhau tan Ebrill 2029, gan gynnig trefniadau cyllido mwy dibynadwy ar gyfer y tair blynedd nesaf, er y bydd y trefniadau'n wahanol ym Manceinion Fwyaf a Chymru, lle mae elfennau o gyllid wedi cael eu datganoli. Yn y tymor hwy, rydym yn cynnig symud tuag at ddull cyllido mwy tryloyw sy'n seiliedig ar anghenion drwy ddiweddaru'r fformiwla genedlaethol a ddefnyddir i ddyrannu cyllid grant i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan sicrhau bod adnoddau'n adlewyrchu'r galw a'r cymhlethdod lleol yn well. Rydym hefyd yn gofyn am farn ar sut y gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder gefnogi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i sicrhau cyfraniadau mwy cyson gan bartneriaid statudol.

## Gweithio gyda'r sector

Byddwn yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, partneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu manylion y cynigion hyn cyn eu rhoi ar waith. Yr ymgynghoriad hwn yw cam cyntaf y broses honno.

Rydym yn cydnabod y bydd angen dylunio a gweithredu'r diwygiadau hyn yn ofalus a bydd angen iddynt ryngweithio â'r cynnig gwelliant parhaus a ddatblygwyd gan y BCI. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar rôl ehangach sydd wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran goruchwylio'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

# Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion i ddiwygio'r gwaith o oruchwylio a chyllido gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'n gofyn am safbwyntiau ar newidiadau i'r fframwaith perfformiad a goruchwylio cenedlaethol, a fydd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2027 ymlaen, a chyfeiriad diwygio cyllid yn y dyfodol o fis Ebrill 2029 ymlaen.

Anelir yr ymgynghoriad at wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, byrddau rheoli cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau lleol, partneriaid statudol, mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, ac eraill sy'n gweithio gyda phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Dylai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid Cymru ystyried y cynigion o fewn eu cyd-destun lleol a deddfwriaethol, ac ymateb i'r cwestiynau yn unol â hynny. Mae fersiwn Gymraeg a fformatau eraill o'r papur ymgynghori ar gael ar gais.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Plant
- Holl Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr
- Cymdeithas Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid
- Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru
- Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi
- Comisiynydd Plant Cymru a Lloegr
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr nac yn neilltuedig, a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.

# Egwyddorion, gweledigaeth ac amcanion

## Ein gweledigaeth

Rydym eisiau system cyfiawnder ieuenctid sy'n atal troseddu, yn amddiffyn cymunedau ac yn rhoi'r cyfle gorau i blant newid eu bywydau er gwell. Mae hyn yn gofyn am wasanaethau lleol cryf, partneriaethau amlasiantaeth effeithiol a fframwaith cenedlaethol sy'n cefnogi gwelliant, gan gydnabod mai arweinwyr lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac ymateb i anghenion eu cymunedau.

Bwriad y diwygiadau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yw creu system lle mae disgwyliadau'n glir, atebolrwydd yn cael ei rannu'n briodol ar draws partneriaid, adnoddau'n alinio ag angen, a goruchwyliaeth genedlaethol yn cefnogi dysgu a gwella yn hytrach na biwrocratiaeth ddiangen.

## Yr egwyddorion sy'n sail i ddiwygio

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar bum egwyddor graidd:

**Cyfrifoldeb partneriaeth**
Cyflawnir canlyniadau cyfiawnder ieuenctid drwy weithredu ar y cyd. Ni all gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyflawni'r canlyniadau hyn ar eu pen eu hunain. Dylai trefniadau goruchwylio ac atebolrwydd effeithiol gydnabod cyfrifoldebau cyffredin partneriaid statudol a chefnogi cydweithio amlasiantaeth cryfach.

**Dan arweiniad lleol, wedi'i alinio'n genedlaethol**
Dylai arweinwyr lleol gael yr hyblygrwydd i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol. Dylai llywodraeth genedlaethol osod disgwyliadau clir, sefydlu safonau gofynnol a darparu cymorth lle bo angen, gan osgoi rhagnodi canolog diangen.

**Gwelliant o ran cydymffurfio**
Prif bwrpas goruchwylio ddylai fod i gefnogi dysgu, hunanasesu a gwelliant parhaus. Dylid casglu gwybodaeth oherwydd ei bod yn helpu i wella canlyniadau, yn cefnogi atebolrwydd neu'n nodi meysydd lle mae angen cymorth neu weithredu, nid dim ond at ddibenion cydymffurfio.

**Lleihau gwahaniaethau**
Dylai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, partneriaid a llywodraeth genedlaethol weithio gyda'i gilydd i ddeall a lleihau gwahaniaethau mewn profiadau a chanlyniadau plant a hyrwyddo system deg a chyfartal ar gyfer pob plentyn.

**Cyllid sy'n alinio â'r angen**
Dylid dosbarthu adnoddau'n dryloyw ac yn deg, gan adlewyrchu'r gwahanol lefelau o angen, cymhlethdod a galw a wynebir gan ardaloedd lleol, ar yr un pryd â chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.

## Ein hamcanion

Drwy'r diwygiadau hyn, anelwn at:

- greu dull mwy cydlynol ac integredig o ran goruchwylio cenedlaethol
- cryfhau gwaith partneriaeth aml-asiantaeth ac atebolrwydd ar y cyd
- rhoi mwy o eglurder i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ynghylch yr hyn a ddisgwylir a sut yr asesir perfformiad
- grymuso arweinwyr a phartneriaethau lleol i gyflawni dros eu hardaloedd lleol
- lleihau beichiau gweinyddol diangen a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n sbarduno gwelliant
- cefnogi gwelliant parhaus ac ymarfer o ansawdd uchel ar draws y system cyfiawnder ieuenctid drwy dystiolaeth, dysgu a hunanasesu
- lleihau gwahaniaethau parhaus drwy sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi, eu deall a'u diwallu'n weithredol drwy ymarfer lleol, gweithio mewn partneriaeth a goruchwyliaeth genedlaethol
- sicrhau bod trefniadau cyllido yn gynaliadwy, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â'r angen

# Rhan A – Perfformiad a Goruchwyliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

## Y trefniadau presennol

Er bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu llywodraethu a’u darparu’n lleol, o dan y trefniadau presennol, mae’r cyfrifoldeb dros oruchwyliaeth genedlaethol o’r system cyfiawnder ieuenctid gyffredinol a pherfformiad lefel gwasanaeth unigol yn cael ei rannu rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ), y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) ac Arolygiaeth Prawf EF.

| Haen | Prif Gorff | Prif Swyddogaeth |
|---|---|---|
| **Atebolrwydd llywodraeth ganolog** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Polisi, cyllid, atebolrwydd gweinidogol dros y system cyfiawnder ieuenctid, a chyfrifoldeb dros oruchwylio perfformiad rhai rhaglenni. |
| **Goruchwyliaeth genedlaethol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid** | BCI | Monitro gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid a darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Hyrwyddo ymarfer da Dosbarthu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder (tan fis Ebrill 2026). |
| **Arolygiad annibynnol** | Arolygiaeth Prawf EF | Craffu ar arolygiadau a graddio cyhoeddus. |
| **Llywodraethu lleol** | Byrddau rheoli Cyfiawnder Ieuenctid lleol | Arweinyddiaeth leol strategol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Atebolrwydd gweithredol a phartneriaeth. |

Mae darnio perfformiad a threfniadau goruchwylio cyllid yn golygu bod hyn yn cael ei gyflawni’n ymarferol drwy nifer o wahanol fframweithiau, prosesau a gofynion, sy’n aml yn gorgyffwrdd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- **Safonau Cenedlaethol** – a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar gyngor y BCI, sy’n sefydlu disgwyliadau sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau
- **Fframwaith Goruchwylio Cyfiawnder Ieuenctid y BCI** – sy’n nodi dull y BCI o oruchwylio, sicrhau a chydymffurfio, gan gynnwys sut mae data a gwybodaeth leol yn cael eu dwyn ynghyd i asesu sut mae gwasanaethau’n perfformio a sut mae nodau’r system yn cael eu cyflawni

- **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)** – a ddyluniwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn ymgynghoriad â'r BCI ac a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y BCI i fonitro perfformiad
- **Telerau ac Amodau'r grant craidd Cyfiawnder Ieuenctid** – mae'r BCI[3] wedi gosod gofynion drwy'r rhain sy'n gysylltiedig â chyllid, gan gynnwys cydymffurfio â safonau cenedlaethol, cyflwyno data, sicrwydd ariannol, ac ymgysylltu â gweithgarwch goruchwylio a gwella
- **Telerau ac Amodau'r grant craidd Turnaround** – drwy'r rhain, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gosod gofynion sy'n gysylltiedig â chyllido'r rhaglen ymyrraeth gynnar ac atal, Turnaround
- **Gofyniad statudol i gynhyrchu cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol** – sy'n gorfod nodi sut bydd ardaloedd lleol yn darparu ac yn ariannu gwasanaethau, a chael eu cyflwyno i'r BCI erbyn dyddiad cau penodol bob blwyddyn
- **Adroddiadau data parhaus** – a gesglir gan y BCI ac a ddefnyddir i lywio'r gwaith o oruchwylio perfformiad ar lefel system a gwasanaeth, nodi tueddiadau cenedlaethol a rhwystrau i nodau'r system
- **Craffu ac arolygu gan Arolygiaeth Prawf EF** – fel arfer yn cael ei wneud ar gylch 4-4.5 mlynedd gan ddefnyddio'r fframwaith arolygu cyfiawnder ieuenctid i asesu effeithiolrwydd sefydliadol ac ansawdd y gwaith gyda phlant a dioddefwyr
- **Gweithgarwch gwella dan arweiniad y BCI** – gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu pan fydd pryderon ynghylch perfformiad

**Y dirwedd ehangach**

Ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid Cymru, mae'r trefniadau goruchwylio yn hynod gymhleth, gyda llawer o wasanaethau partner cyfiawnder ieuenctid wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol plant.

Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd yn gweithredu o fewn tirwedd ehangach o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys newidiadau i strwythurau plismona, prawf, iechyd, gofal cymdeithasol plant a llywodraeth leol. Mae'r diwygiadau hyn yn ail-lunio'r sefydliadau a'r partneriaethau y mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn dibynnu arnynt, gan gyfrannu at amgylchedd gweithredu cynyddol gymhleth.

[3] Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am hyn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o fis Ebrill 2026 ymlaen. Cyn gofyn am safbwyntiau drwy'r ymgynghoriad hwn, penderfynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiwygio rôl a chylch gwaith y BCI fel ei fod yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn barhaus, a throsglwyddo swyddogaethau perthnasol, gan gynnwys dosbarthu'r grant craidd cyfiawnder ieuenctid, i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Yr Achos dros Newid

**Goruchwyliaeth tameidiog**

Er y bwriedir i'r elfennau goruchwylio presennol ategu ei gilydd, maent wedi datblygu ar wahân dros amser. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid wedi dweud wrthym nad yw'r trefniadau presennol bob amser yn gweithredu fel system gydlynol, sy'n ei gwneud yn anodd i wasanaethau a phartneriaid ddeall sut mae gwahanol ofynion yn cydberthyn neu sut mae perfformiad cyffredinol yn cael ei asesu a sut mae camau'n cael eu cymryd. Ar lefel genedlaethol, mae'r diffyg cysondeb hefyd yn ei gwneud yn anoddach i gyrff perthnasol nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a chymryd camau amserol, neu nodi arferion gorau clir i'w rhannu. Nid yw'r berthynas rhwng Safonau Cenedlaethol, fframweithiau arolygu a mesurau perfformiad yn alinio'n glir, gan gyfrannu at ddyblygu ac anghysondeb ar draws y system. Mae'r BCI ac Arolygiaeth Prawf EF wedi nodi cyfyngiadau o ran defnyddio Safonau Cenedlaethol ar gyfer cyflawni eu rolau hanfodol.

**Ddim yn cyd-fynd â realiti'r arferion presennol**

Nid yw disgwyliadau sydd wedi'u gosod yn ganolog, fel Safonau Cenedlaethol, wedi cyd-fynd â newidiadau yn y ffordd mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu darparu ar lawr gwlad. Nid yw'r newid yn y system tuag at weithio ymhellach i fyny'r gadwyn ar ymyrraeth gynnar ac atal, yr amser mae gwasanaethau'n ei dreulio'n gweithio'n uniongyrchol gyda dioddefwyr a'r gyfran gynyddol o blant sydd ag anghenion cymhleth sy'n ymuno â'r system gyfiawnder - sy'n golygu bod eu taith drwy "gamau" y system yn gorgyffwrdd fwyfwy ac yn aflinol - yn cael eu hadlewyrchu'n llawn. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a rhanddeiliaid ehangach hefyd wedi bod yn glir ynghylch pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghymesuredd yn glir drwy gydol y disgwyliadau.

**Diffyg eglurder ynghylch atebolrwydd partneriaethau**

Rydym hefyd wedi clywed nad yw disgwyliadau presennol y system, yn enwedig Safonau Cenedlaethol a dangosyddion perfformiad allweddol, yn adlewyrchu cyfrifoldebau cyffredin partneriaid statudol yn gyson, ac felly'n cynnig darlun rhannol neu anghywir o berfformiad. Gall hyn olygu bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn teimlo eu bod yn cael eu dal yn atebol am ganlyniadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol a heb lwybr clir i uwchgyfeirio materion wrth weithio mewn partneriaeth. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi dweud wrthym y dylai'r fframwaith goruchwylio wneud mwy i gymell gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a hyrwyddo cydberchnogaeth ar ganlyniadau ar draws y system cyfiawnder ieuenctid.

**Ffocws ar adrodd a chydymffurfio ar draul gwella**

Yn olaf, mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid wedi dweud wrthym fod effaith y system oruchwylio yn cael ei chyfyngu ymhellach gan sut mae'n cael ei rhoi ar waith yn ymarferol. Gall gofynion adrodd deimlo'n ddyblygol a chreu beichiau gweinyddol sy'n tynnu arweinwyr oddi wrth weithgarwch a fydd wir yn sbarduno gwelliant, gan gynnwys gwaith

sy'n cefnogi plant a dioddefwyr yn uniongyrchol, heb o reidrwydd gynnig darlun clir o berfformiad fel y gellir cymryd camau'n lleol. Rydym hefyd yn cydnabod bod gofynion adrodd cenedlaethol yn cyd-fynd ag amrywiaeth o ofynion adrodd, llywodraethu a sicrwydd lleol sy'n cyfrannu at dirwedd adrodd gymhleth ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Gwelir yr hunanasesiad presennol yn erbyn y Safonau Cenedlaethol fel ymarfer cydymffurfio, yn hytrach nag adnodd ar gyfer gwelliant parhaus. Er bod y Safonau Cenedlaethol wedi'u cynllunio i osod llinell sylfaen gyson ar gyfer cyflawni ar draws y system, mae cytundeb cyffredinol eu bod yn aml yn seiliedig ar brosesau ac nad ydynt yn cynnig llawer o eglurder ynghylch sut beth yw “da” yn ymarferol. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i wasanaethau a phartneriaid asesu a yw ymyriadau'n effeithiol, neu i'w defnyddio fel adnodd ystyrlon ar gyfer gwella.

## Y Cynigion

Dan arweiniad y weledigaeth, yr egwyddorion a'r amcanion a nodir yn y bennod flaenorol, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar gynigion i ddod â phrosesau goruchwylio at ei gilydd mewn fframwaith mwy cydlynol, gosod disgwyliadau clir ynghylch safonau sylfaenol ac ymarfer o ansawdd uchel, egluro lle mae atebolrwydd ar lefel gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, partneriaeth neu system, a symleiddio trefniadau adrodd i lywodraeth ganolog.

Nid yw'r cynigion hyn yn ymateb i fethiant eang yn y gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn perfformio'n dda, yn darparu gwasanaethau effeithiol ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, dioddefwyr a chymunedau. Fodd bynnag, nid yw trefniadau goruchwylio cenedlaethol wedi cadw i fyny â'r cyd-destun newidiol y mae gwasanaethau bellach yn gweithredu ynddo.

Yn unol â'n hegwyddorion arweinyddiaeth leol, cysoni cenedlaethol a gwella dros gydymffurfiaeth, nid diben y fframwaith cenedlaethol yw cynyddu rheolaeth ganolog ond rhoi sicrwydd bod safonau sylfaenol yn cael eu bodloni, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, a bod plant, dioddefwyr a chymunedau'n cael gwasanaethau o ansawdd uchel.

Arweinwyr a phartneriaethau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac ymateb i anghenion eu cymunedau. Rôl llywodraeth ganolog yw gosod disgwyliadau clir ar ran trethdalwyr a chwarae rhan wirioneddol ddefnyddiol yn y gwaith o gefnogi gwasanaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys nodi lle byddai rhai meysydd yn elwa o fwy o gymorth ymarferol, rhannu arferion gorau, ac ymateb i dueddiadau a heriau sy'n dod i'r amlwg sy'n gofyn am weithredu cenedlaethol. I gyflawni hyn, rydym yn cynnig fframwaith goruchwylio integredig newydd sy'n seiliedig ar dair elfen graidd: disgwyliadau clir, atebolrwydd clir a gofynion adrodd cymesur.

## Fframwaith Goruchwylio Integredig

1. **Disgwyliadau clir a chyson** - cyfres o Safonau Cenedlaethol wedi'u diweddaru, ochr yn ochr â Fframwaith Perfformiad Ansawdd newydd, a fydd, gyda'i gilydd, yn diffinio'r disgwyliadau sylfaenol ar gyfer gwasanaethau a phartneriaid a sut beth yw ymarfer o ansawdd uchel. Bydd y rhain yn adlewyrchu realiti'r ddarpariaeth bresennol a rolau priodol gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phartneriaethau ehangach.

2. **Eglurder ar atebolrwydd partneriaethau** - esboniad cliriach o ble mae canlyniadau'n cael eu defnyddio i asesu darpariaeth gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid unigol, neu lle maent yn arwydd o effeithiolrwydd partneriaeth neu berfformiad system yn gyffredinol. Bydd yr "haenau atebolrwydd" hyn yn sail i ddull goruchwylio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn darparu llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer materion sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth neu dueddiadau ar lefel system sy'n gofyn am gamau gweithredu cenedlaethol.

3. **Dull cymesur o adrodd a chydymffurfio** – drwy symleiddio gofynion adrodd a lleihau dyblygu, bydd y fframwaith yn galluogi gwasanaethau i ganolbwyntio mwy ar gyflawni a chanlyniadau. Bydd gwybodaeth sy'n ofynnol gan lywodraeth ganolog yn amlwg yn cyfrannu at oruchwylio perfformiad a monitro systemau. Bydd gwasanaethau'n cael eu hannog i bwyso a mesur eu perfformiad eu hunain drwy hunanasesiadau.

Fel y nodir uchod, bwriad y cynigion hyn yw cefnogi newid tuag at fwy o berchnogaeth leol, hunanasesu a diwylliant o welliant parhaus.

Rydym yn cydnabod bod y cynigion hyn yn dod ar adeg pan fo gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid eisoes yn gweithredu o fewn tirwedd ehangach o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn mynd trwy newid sylweddol ar draws plismona, prawf, iechyd, gofal cymdeithasol plant a llywodraeth leol. Rydym wedi clywed yn glir gan y sector y dylai unrhyw ddiwygiadau i drefniadau goruchwylio adlewyrchu'r cyd-destun hwn drwy wella cydlyniad a lleihau dyblygu, yn hytrach na chreu baich ychwanegol. Wrth i ni ddatblygu dyluniad manwl y fframwaith, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau ar draws y llywodraeth i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â diwygiadau ehangach.

Byddwn yn ystyried adborth, ochr yn ochr â chanfyddiadau arolygiad thematig arfaethedig Arolygiaeth Prawf EF o drefniadau strategol mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, wrth i ni ddatblygu'r fframwaith terfynol.

Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Maerol a Chyfunol perthnasol i sicrhau bod y fframwaith perfformiad terfynol yn cyd-fynd yn effeithiol â threfniadau datganoledig a lleol ar gyfer goruchwylio perfformiad y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid.

## Disgwyliadau clir a chyson: Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Perfformiad Ansawdd

Mae system cyfiawnder ieuenctid sy'n perfformio'n dda yn gofyn am ddisgwyliadau clir ynghylch y safonau sylfaenol a ddylai fod ar waith, a nodweddion ymarfer o ansawdd uchel. O ganlyniad, rydym yn cynnig fframwaith sy'n cyfuno Safonau Cenedlaethol wedi'u diweddaru â Fframwaith Perfformiad Ansawdd newydd.

**Safonau Cenedlaethol**

Rydym yn cynnig bod Safonau Cenedlaethol wedi'u diweddaru yn parhau i fod yn sylfaen i'r fframwaith goruchwylio cenedlaethol, ond eu bod yn cael eu diweddaru i adlewyrchu realiti'r arferion presennol. Byddant yn parhau i nodi'r dyletswyddau statudol, y disgwyliadau sylfaenol a'r gofynion diogelu ac amddiffyn y cyhoedd ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a'u partneriaid (y "terfyn isaf"). Bydd cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol yn parhau i fod yn ofyniad mewn cytundebau cyllid grant ac yn ystyriaeth allweddol mewn gweithgareddau goruchwylio, sicrwydd a gwella, gyda mwy o graffu ac uwchgyfeirio lle nad yw gwasanaethau'n gallu dangos eu bod yn cydymffurfio.

Fodd bynnag, mae angen diwygio'r Safonau Cenedlaethol presennol a gyhoeddwyd yn 2019[4] yn sylweddol. Rydym am iddynt wneud y canlynol:

- adlewyrchu ymarfer cyfiawnder ieuenctid cyfoes yn well, gan gynnwys y newid tuag at **ymyrraeth gynnar ac atal** (e.e. y rhaglen Turnaround)
- rhoi mwy o ffocws ar effaith **canlyniadau** yn hytrach na mewnbynnau rhagnodedig
- bod yn gliriach ynghylch disgwyliadau o ran mynd i'r afael ag **anghymesuredd** (o ran trin plant sydd mewn gofal, neu o wahanol ethnigrwydd, er enghraifft) yn y system
- adlewyrchu cymhlethdod a natur aflinol 'siwrneiau' plant drwy'r system cyfiawnder ieuenctid
- rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd **partneriaid** a chydnabod natur amlasiantaeth darparu cyfiawnder ieuenctid

Roedd fersiynau blaenorol o'r Safonau Cenedlaethol yn fwy rhagnodol, gyda gofynion penodol (er enghraifft) ynghylch nifer y diwrnodau gwaith ar gyfer cwblhau cynlluniau rhaglen wedi'u llofnodi neu gynnal asesiadau llawn o bob person ifanc a dderbyniwyd i'r ddalfa. Nid ydym yn credu bod dychwelyd at Safonau Cenedlaethol rhagnodol iawn yn cyd-fynd â'n nod o leihau beichiau gweinyddol a chefnogi mwy o berchnogaeth leol.

Bydd gwaith manwl i ddatblygu cynnwys y Safonau Cenedlaethol yn cael ei wneud gyda grwpiau cynghori arbenigol y sector yn ddiweddarach eleni, a bwriedir cyflwyno Safonau wedi'u diweddaru o fis Ebrill 2027 ymlaen. Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn am farn ar y canlynol:

---

4 Standards for children in the youth justice system – GOV.UK

- a ddylid parhau i strwythuro'r Safonau Cenedlaethol o amgylch camau'r system cyfiawnder ieuenctid neu a ddylid eu had-drefnu o amgylch meysydd thematig
- y newidiadau lefel uchel sydd eu hangen i sicrhau bod y Safonau'n adlewyrchu ymarfer cyfiawnder ieuenctid cyfoes

**Opsiwn 1: Cadw'r strwythur presennol ond mireinio'r cynnwys i adlewyrchu ymarfer cyfredol**

O dan y dull hwn, byddai Safonau Cenedlaethol yn cadw eu strwythur presennol sy'n seiliedig ar gamau, gyda safonau ar wahân yn cwmpasu gwahanol gamau o'r system cyfiawnder ieuenctid (er enghraifft, datrysiadau y tu allan i'r llys, darpariaeth llys a chymunedol). Er y byddai'r holl safonau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r arferion presennol, credwn y dylai'r gwelliannau penodol gynnwys:

- datblygu safon newydd ar gyfer cam 'Ymyrryd yn Gynnar ac Atal' y system, wedi'i fframio mewn ffordd sy'n adlewyrchu dull amlasiantaeth ac sy'n nodi cyfrifoldeb partneriaid yn gliriach
- datblygu safon 'Dioddefwyr' newydd i adlewyrchu ffocws y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Arolygiaeth Prawf EF ar wella profiad dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol
- datblygu disgwyliadau cliriach ar fynd i'r afael ag anghymesuredd (gan gynnwys ethnigrwydd, niwroamrywiaeth a phrofiad o ofal), naill ai wedi'u cynnwys fel safon unigol neu wedi'u hintegreiddio drwyddi draw
- diweddaru datrysiadau y tu allan i'r llys (OOCR) i adlewyrchu arferion da cyfoes

At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi cynnwys enghreifftiau dangosol o sut y gellid ymgorffori Safonau ar ddioddefwyr, ymyrraeth gynnar ac atal, ac anghymesuredd mewn strwythur sy'n seiliedig ar gamau. Enghreifftiau lefel uchel yn unig yw'r rhain, a byddant yn cael eu datblygu ymhellach gyda'r sector a phartneriaid ehangach.

**Safon Dioddefwyr Enghreifftiol**

Mae dioddefwyr troseddau a gyflawnir gan blant yn cael eu cefnogi drwy wasanaeth unigol o ansawdd uchel sy'n blaenoriaethu diogelwch, llesiant, cyfranogiad a chyfleoedd adferol lle bo hynny'n briodol.

**Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid:** Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn mynd ati i geisio deall anghenion, profiadau a dewisiadau unigol dioddefwyr ac mae'n defnyddio hyn i siapio cymorth ac ymyriadau ymatebol.

**Bwrdd rheoli a phartneriaid:** Mae'r bwrdd rheoli'n sicrhau bod gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu monitro a'u gwerthuso a'u bod yn gwella'n barhaus.

**Enghraifft o Safon Atal ac Ymyrryd yn Gynnar**

Mae gweithgarwch ymyrryd ac atal cynnar yn cael ei ddarparu drwy ddull system gyfan cydlynol sy'n ymgorffori dargyfeirio, yn egluro cyfrifoldebau partneriaeth, ac yn hyrwyddo atebolrwydd ar y cyd ar gyfer gwella canlyniadau i blant.

**Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid:** Mae prosesau sgrinio, brysbennu ac asesu yn cefnogi nodi angen a bregusrwydd yn gynnar, gan gynnwys ffactorau risg diogelu, trawma, AAAA/ADY a chyd-destunol.

**Bwrdd rheoli a phartneriaid:** Mae cynnig atal a dargyfeirio lleol wedi'i ddiffinio'n glir, sy'n gyson â chanllawiau cenedlaethol (ac yng Nghymru, egwyddorion fframwaith atal Cymru).

**Enghraifft o Safon Anghymesuredd**

Mae ymarfer yn nodi ac yn lleihau anghymesuredd drwy ymateb i anghenion amrywiol a nodwyd yn lleol, e.e. profiad gofal a hil.

**Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid:** Mae ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu dealltwriaeth strategol y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid o anghymesuredd lleol.

**Bwrdd rheoli a phartneriaid:** Mae strategaeth anghymesuredd glir wedi'i hategu gan ddata lleol cadarn, sy'n nodi amcanion mesuradwy ar gyfer y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid.

**Opsiwn 2: Ailstrwythuro Safonau Cenedlaethol o amgylch meysydd thematig a mireinio'r cynnwys i adlewyrchu arferion presennol**

O dan y dull hwn, byddai Safonau Cenedlaethol yn cael eu hailstrwythuro o amgylch set o feysydd thematig craidd yn hytrach na chamau'r system cyfiawnder ieuenctid, gan adlewyrchu anghenion cymhleth plant a natur aflinol eu teithiau drwy'r system.

Byddai set o egwyddorion trawsbynciol hefyd yn cael eu datblygu fel sail i bob maes thematig. Isod ceir enghreifftiau o ddetholiadau.

**Enghraifft o ddisgrifiadau a meysydd thematig Safonau Cenedlaethol**

**Arweinyddiaeth a llywodraethu:** Mae'r bwrdd rheoli cyfiawnder ieuenctid yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac yn dal partneriaid i gyfrif o ran gwella canlyniadau. Mae gweithgarwch amlasiantaeth effeithiol a chydlynol yn sicrhau bod plant yn cael digon o gefnogaeth.

**Atebolrwydd Partneriaethau:** Mae partneriaid statudol yn cyflawni eu cyfrifoldebau ac yn atebol am eu cyfraniad at wella canlyniadau i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae gan blant fynediad amserol at y gwasanaethau cyffredinol, targedig ac arbenigol ar sail eu hanghenion asesedig, ac mae partneriaid yn sicrhau bod llwybrau atgyfeirio effeithiol ar gael sy'n lleihau'r rhwystrau i fynediad ac yn cefnogi parhad gofal.

**Galluoedd a Rheolaeth y Gwasanaeth:** Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu fel system gydlynol, effeithiol a chynaliadwy gyda chyllid, adnoddau a gweithlu medrus priodol i sicrhau canlyniadau gwell a theg i blant, dioddefwyr a chymunedau.

**Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth:** Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn deall ac yn dilyn arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (fel y nodir, er enghraifft, ym Mhecyn Cymorth Atal Trais y Gronfa Waddol Ieuenctid) wrth ddylunio cynlluniau ymyrryd ar gyfer plant ac mae'n defnyddio data a thystiolaeth i lywio ei ddarpariaeth weithredol a'i gynllunio strategol.

**Dioddefwyr:** Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn darparu cymorth i ddioddefwyr sy'n ymatebol, yn bersonol ac o ansawdd uchel, gan wella canlyniadau a gwella diogelwch dioddefwyr.

**Adrodd a Gwelliant Parhaus:** Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn defnyddio data, tystiolaeth ac adborth i wella perfformiad yn barhaus a datblygu'r gweithlu.

**Enghraifft o ddisgrifiadau ac egwyddorion trawsbynciol**

**Llais y Plentyn:** Mae safbwyntiau, cryfderau a phrofiadau bywyd plant yn siapio pob agwedd ar ymarfer, dylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

**Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd:** Mae risgiau i blant ac eraill yn cael eu nodi, eu rheoli a'u hadolygu'n effeithiol ar draws ymarfer a phartneriaethau.

**Anghymesuredd**: Mae gwahaniaethau'n cael eu nodi, eu deall, ac yn cael sylw gweithredol ar draws y ddarpariaeth a monitro canlyniadau.

**Cwestiwn 1**
A ddylai Safonau Cenedlaethol barhau i gael eu strwythuro o amgylch camau'r system (Opsiwn 1), neu gael eu hailstrwythuro'n feysydd thematig gydag egwyddorion trawsbynciol (Opsiwn 2)? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

- Opsiwn 1
- Opsiwn 2
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 2**
Os bydd Safonau Cenedlaethol yn parhau i fod yn seiliedig ar gamau cyfiawnder ieuenctid (Opsiwn 1), a ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddatblygu safonau newydd ar Ddioddefwyr, Ymyrraeth Gynnar ac Atal, ac i ddiweddaru OOCRs i adlewyrchu arferion da cyfoes? Pa newidiadau neu ychwanegiadau eraill fyddech chi'n disgwyl eu gweld i gamau'r Safon Genedlaethol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu realiti'r ymarfer presennol?

Safon newydd ar gyfer Dioddefwyr

- Ydw
- Nac ydw

Safon newydd ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal

- Ydw
- Nac ydw

Diweddaru OOCR i adlewyrchu arferion da cyfoes

- Ydw
- Nac ydw
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 3**
Os caiff Safonau Cenedlaethol eu hailstrwythuro o amgylch meysydd thematig (Opsiwn 2), i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r enghreifftiau o feysydd thematig ac egwyddorion trawsbynciol a gynigir? Pa ychwanegiadau neu newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu i adlewyrchu realiti'r ymarfer presennol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 4**
A ddylid cynnwys anghymesuredd fel safon/maes thematig unigol neu ei integreiddio drwy’r Safonau Cenedlaethol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.
- Cadw fel maes thematig/safon unigol
- Integreiddio i safonau/meysydd thematig eraill
- [Testun rhydd]

## Fframwaith Perfformiad Ansawdd

Er y bydd Safonau Cenedlaethol yn parhau i osod disgwyliadau sylfaenol, sy’n hanfodol ar gyfer sicrwydd ac atebolrwydd, rydym hefyd eisiau mynegi sut beth yw ymarfer o ansawdd uchel (y ‘terfyn uchaf’) wrth gyflawni.

I fynd i’r afael â hyn, rydym yn cynnig datblygu Fframwaith Perfformiad Ansawdd newydd sy’n ategu Safonau Cenedlaethol drwy ddiffinio’r nodweddion a’r dulliau allweddol sy’n gysylltiedig ag ymarfer cyfiawnder ieuenctid o ansawdd uchel.

Bydd y Fframwaith Perfformiad Ansawdd yn:
- cefnogi cyd-ddealltwriaeth o sut beth yw ymarfer o ansawdd uchel i’r system cyfiawnder ieuenctid
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth a chanolbwyntio ar ddangosyddion ansawdd ac ymarfer
- darparu sail strwythuredig a chymesur ar gyfer hunanasesu, adolygu gan gymheiriaid a chynllunio a dysgu ar gyfer gwella
- cefnogi gwaith partneriaeth ac aml-asiantaeth
- helpu i greu ‘llinyn aur’ cliriach rhwng disgwyliadau, perfformiad a gweithgarwch gwella.

Bwriedir i’r Fframwaith Perfformiad Ansawdd fod yn adnodd i gefnogi gwelliant lleol. Ni fyddem yn disgwyl i wasanaethau adrodd yn rheolaidd yn erbyn y Fframwaith. Yn hytrach, byddai’n feincnod cyffredin ar gyfer myfyrio lleol, hunanasesu a chynllunio gwelliannau. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i wasanaethau allu dangos sut maent yn defnyddio’r Fframwaith i gefnogi gwelliant parhaus, gan gynnwys drwy’r prosesau hunanasesu a diweddaru blynyddol a amlinellir yn nes ymlaen yn yr ymgynghoriad hwn.

Yn yr un modd â’r Safonau Cenedlaethol, bydd gwaith manwl i ddatblygu cynnwys y Fframwaith Perfformiad Ansawdd yn cael ei wneud gyda grwpiau cynghori arbenigol yn y sector yn ddiweddarach eleni. Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn am farn ar y bwriad i gyflwyno Fframwaith Perfformiad Ansawdd, y meysydd ymarfer y dylai eu cynnwys, ac unrhyw risgiau, heriau neu ganlyniadau anfwriadol y dylid eu hystyried wrth ei ddylunio a’i weithredu.

**Cwestiwn 5**
I ba raddau ydych chi'n cytuno â chyflwyno Fframwaith Perfformiad Ansawdd i ddiffinio ymarfer o ansawdd uchel a chefnogi gwelliant parhaus? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys a oes unrhyw risgiau neu heriau allweddol rydych chi'n eu rhagweld a sut gellid lliniaru'r rhain.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 6**
Pa feysydd neu agweddau ar ymarfer cyfiawnder ieuenctid ddylai'r fframwaith eu cynnwys i fod fwyaf defnyddiol i'ch ardal leol?

- [Testun rhydd]

## Eglurder ar atebolrwydd partneriaeth: dull gweithredu haenog

Mae adborth gan y sector wedi tynnu sylw at y ffaith y gall y fframwaith perfformiad presennol wneud i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid deimlo eu bod yn cael eu dal yn atebol am ganlyniadau nad ydynt o fewn eu rheolaeth uniongyrchol yn llwyr. Nid yw'r dangosyddion presennol bob amser yn adlewyrchu natur gyffredin darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn ddigonol gyda phartneriaid nac yn gwahaniaethu'n glir rhwng rolau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, byrddau rheoli, partneriaid statudol a'r system ehangach. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod adrodd ar 14 DPA yn feichus.

Rydym yn cydnabod bod gwybodaeth am berfformiad yn cyflawni dibenion gwahanol: cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau, llywio llywodraethu ac atebolrwydd lleol, a helpu'r llywodraeth i ddeall pa mor dda mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn perfformio'n gyffredinol. Nid yw'r fframwaith presennol bob amser yn gwahaniaethu rhwng y dibenion hyn, gan ei gwneud yn anoddach nodi pwy sy'n gyfrifol am wella a lle bydd gweithredu'n cael yr effaith fwyaf.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a chyflawni ein hamcanion o gryfhau atebolrwydd partneriaethau, credwn y dylid ystyried gwybodaeth am berfformiad ar y lefel lle mae fwyaf defnyddiol a lle mae atebolrwydd.

**Dull gweithredu haenog o ran gwybodaeth am berfformiad**
Felly, rydym yn cynnig dull tair haen o drefnu gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys DPA, er mwyn egluro sut dylid defnyddio gwybodaeth ac at ba ddiben.

| Haen | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Sut y caiff ei ddefnyddio |
|---|---|---|
| **Haen 1: Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid** | Pa mor effeithiol y mae gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid unigol yn darparu ar gyfer plant a dioddefwyr. | Nodi meysydd i'w gwella, targedu cymorth a, lle bo angen, cynyddu craffu. |
| **Haen 2: Byrddau rheoli a phartneriaid** | Pa mor effeithiol y mae partneriaid lleol yn cydweithio ac yn ymarfer arweinyddiaeth a llywodraethu. | Ymgysylltu â byrddau rheoli a phartneriaid i fynd i'r afael â rhwystrau a gwella'r ddarpariaeth ar y cyd. |
| **Haen 3: Iechyd y system** | Pa mor dda mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn perfformio'n gyffredinol, gan gynnwys canlyniadau, gwahaniaethau a thueddiadau cenedlaethol. | Llywio polisi cenedlaethol, gweithredu trawslywodraethol a diwygio'r system yn ehangach. |

Bwriad y dull hwn yw cefnogi arweinyddiaeth leol drwy sicrhau bod sefydliadau'n cael eu dal yn atebol am y canlyniadau hynny y maent yn y sefyllfa orau i ddylanwadu arnynt, gan ddarparu llwybrau uwchgyfeirio cliriach lle nodir heriau ehangach o ran partneriaeth neu system.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu trefniadau goruchwylio yn y dyfodol, byddwn yn nodi'r wybodaeth feintiol ac ansoddol y dylid ei defnyddio ym mhob haen. Ar hyn o bryd rydym yn casglu data ar 14 o ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol ac mae gennym ddiddordeb mewn barn ynghylch pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol, a oes angen mesurau ychwanegol, ac ar ba haen y dylai mesurau gwahanol fod.

Bydd y BCI diwygiedig yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y system cyfiawnder ieuenctid ehangach fel corff gwella parhaus. Bydd gwybodaeth o oruchwylio perfformiad, gweithgarwch arolygu a monitro'r system ehangach yn helpu i lywio blaenoriaethau gwella a gweithgareddau cymorth, gan helpu i sicrhau bod dysgu, cymorth ac arferion gorau yn cael eu targedu lle gallant gael yr effaith fwyaf.

**Gwreiddio profiadau bywyd**
Dylai goruchwyliaeth genedlaethol effeithiol gael ei llywio nid yn unig gan ddata perfformiad a chanfyddiadau arolygiadau, ond hefyd gan brofiadau'r rhai sy'n rhyngweithio â'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed

barn am sut y dylai safbwyntiau plant, dioddefwyr a theuluoedd fod yn sail i drefniadau goruchwylio cenedlaethol.

**Cwestiwn 7**
I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid trefnu gwybodaeth am berfformiad a'i defnyddio ar draws tair haen:
- Y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid
- Byrddau rheoli a phartneriaid
- Iechyd y system

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw risgiau, buddion neu heriau gweithredu.
- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 8**
Ar hyn o bryd rydym yn casglu 14 DPA cenedlaethol ac ystod o wybodaeth arall am berfformiad. Wrth i ni ddatblygu trefniadau goruchwylio yn y dyfodol:
- Pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer deall perfformiad gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid unigol?
- Pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer deall effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth lleol?
- Pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer deall iechyd y system cyfiawnder ieuenctid yn gyffredinol?
- A oes unrhyw fesurau y dylid eu symud, eu dileu neu eu hychwanegu?

Rhowch resymau am eich ateb.
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 9**
I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai lleisiau plant, dioddefwyr a theuluoedd fod yn rhan o drefniadau goruchwylio perfformiad lleol a chenedlaethol? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys sut gellid cofnodi'r safbwyntiau hyn mewn ffordd ystyrlon a chymesur.
- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 10**
I ba raddau mae'r trefniadau arfaethedig yn adlewyrchu gofynion goruchwylio ac atebolrwydd cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, a pha ystyriaethau ychwanegol sydd eu hangen?

- I raddau helaeth
- I ryw raddau
- I raddau cyfyngedig
- Dim o gwbl
- Dim barn / Amherthnasol
- [Testun rhydd]

## Dull cymesur o adrodd a chydymffurfio

Un o amcanion canolog y diwygiadau hyn yw lleihau beichiau gweinyddol diangen a chreu dull mwy cymesur o oruchwylio. Rydym am roi'r adnoddau a'r hyblygrwydd i bartneriaethau a gwasanaethau lleol ddeall eu perfformiad eu hunain, nodi blaenoriaethau a sbarduno gwelliant.

Rydym wedi clywed adborth bod y gofynion presennol yn gallu bod yn ddyblygol ac yn feichus o ran amser, gan dynnu arweinwyr ac ymarferwyr oddi wrth weithgareddau cyflawni a gwella gwasanaethau. O ganlyniad, rydym am sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu dim ond pan fydd yn cyflawni diben clir, yn cefnogi atebolrwydd, neu'n helpu i wella canlyniadau i blant, dioddefwyr a chymunedau.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar dri maes: cyflwyno hunanasesiad; symleiddio trefniadau ar gyfer cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol; a diwygio'r dull o ymdrin â Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol.

**Hunanasesu a gwella'n barhaus**
Rydym yn cynnig cyflwyno hunanasesiad strwythuredig fel elfen allweddol o'r fframwaith goruchwylio. Gan ddefnyddio'r Fframwaith Perfformiad Ansawdd fel meincnod cyffredin, byddai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a byrddau rheoli yn asesu ansawdd ac effeithiolrwydd eu hymarfer, gan ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad, canfyddiadau arolygiadau a gwybodaeth leol i nodi cryfderau, meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau gwella.

Prif bwrpas hunanasesu fyddai cefnogi dysgu a gwelliant parhaus, yn hytrach na dangos cydymffurfiaeth â gofynion cenedlaethol. Byddai'n adnodd ar gyfer arweinyddiaeth leol, nid yn ofyniad adrodd i lywodraeth ganolog, er y byddai disgwyl i wasanaethau ddangos sut mae hunanasesu yn llywio gweithgarwch gwella a gwneud penderfyniadau strategol.

Bydd y BCI diwygiedig yn parhau i gefnogi dysgu a gwella ar draws y sector cyfiawnder ieuenctid. Wrth i drefniadau gael eu datblygu yn y dyfodol, byddwn yn ceisio sicrhau bod gweithgarwch gwella yn seiliedig ar dystiolaeth, gwybodaeth a dysgu ar y cyd o bob rhan o’r system.

**Cwestiwn 11**
Pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddylunio trefniadau hunanasesu lleol i sicrhau eu bod yn ystyrlon, yn gymesur ac yn cefnogi gwelliant mewn ymarfer? Dylech gynnwys unrhyw risgiau, heriau neu ganlyniadau anfwriadol y dylid eu hosgoi.

- [Testun rhydd]

**Cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol**
Mae cynllun cyfiawnder ieuenctid clir yn hanfodol ar gyfer cyflawni lleol ac atebolrwydd effeithiol. Credwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ddatblygu a chymeradwyo cynlluniau drwy eu trefniadau llywodraethu presennol.

Mae’r wybodaeth sydd mewn cynlluniau cyfiawnder ieuenctid yn hanfodol ar gyfer cefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau lleol strategol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn angenrheidiol i lywodraeth ganolog gasglu’r holl wybodaeth hon er mwyn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd cenedlaethol effeithiol.

Mae’r trefniadau presennol[5] yn cydnabod hyn yn rhannol drwy ganiatáu i wasanaethau sydd â chynlluniau aml-flwyddyn gyflwyno diweddariad blynyddol byrrach, gan adlewyrchu’r ffaith bod blaenoriaethau strategol a threfniadau cyflawni yn aml yn aros fwy neu lai yr un fath dros oes cynllun.

Fodd bynnag, rydym wedi clywed adborth clir bod y gwahaniaeth rhwng cynllun cyfiawnder ieuenctid a diweddariad blynyddol yn gallu teimlo’n aneglur yn ymarferol, gyda’r canfyddiad bod diweddariadau blynyddol yn aml yn gofyn am lefel debyg o fanylder ac ymdrech. Mae’r gofyniad i gyflwyno cynlluniau i’r BCI erbyn dyddiad cau penodol hefyd yn cyfrannu at lwyth gwaith penaethiaid gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun cyfiawnder ieuenctid blynyddol a’i gyflwyno i’r BCI. Er ei bod yn debygol y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i ddileu’r gofyniad hwn, rydym am gymryd camau nawr i leihau’r baich ar wasanaethau o fewn y fframwaith statudol presennol.

5 Mae canllawiau presennol y BCI yn caniatáu i bartneriaethau lleol gynhyrchu cynllun cyfiawnder ieuenctid dros nifer o flynyddoedd. Mae’n ofynnol hefyd i bartneriaethau sy’n dewis cynhyrchu cynllun aml-flwyddyn gyflwyno diweddariad blynyddol i fodloni gofynion statudol.

Felly, rydym yn cynnig cadw diweddariad blynyddol ond symleiddio ei gynnwys fel ei fod yn canolbwyntio ar yr wybodaeth sydd fwyaf perthnasol i oruchwyliaeth a sicrwydd cenedlaethol, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau cyfiawnder ieuenctid llawn. Byddai hyn yn parhau i fodloni'r gofynion statudol presennol ar yr un pryd â chefnogi mwy o hyblygrwydd lleol a lleihau adroddiadau diangen.

Rydym felly'n cynnig:

- rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran fformat, cynnwys a hyd cynlluniau cyfiawnder ieuenctid, gan eu galluogi i gysoni cynllunio'n fwy effeithiol â chylchoedd cynllunio a llywodraethu lleol
- dileu'r gofyniad i gyflwyno cynlluniau cyfiawnder ieuenctid i'r BCI erbyn dyddiad penodol (mae'r canllawiau presennol yn nodi bod angen eu cyflwyno erbyn 30 Mehefin).
- cadw diweddariad blynyddol symlach ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer goruchwyliaeth a sicrwydd cenedlaethol yn unig
- yn hytrach na chyflwyno cynllun cyfiawnder ieuenctid llawn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddai gwasanaethau'n darparu diweddariad blynyddol sy'n cwmpasu:
    - **cadarnhau cynllun cyfiawnder ieuenctid a gymeradwywyd yn lleol**: bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder bod llywodraethu lleol cadarn ar waith yn hytrach na bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu cynlluniau sydd eisoes wedi'u cytuno'n lleol
    - **blaenoriaethau strategol**: blaenoriaethau sydd wedi'u diffinio'n glir a sut mae'r rhain yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol a safonau cenedlaethol
    - **crynodeb o berfformiad**: gan gynnwys cyd-destun lleol, data, tystiolaeth ansoddol a blaenoriaethau gwella allweddol
    - **risgiau allweddol:** i risgiau a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau er mwyn i lywodraeth ganolog allu ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg a nodi lle gallai fod angen cymorth
    - **staffio ac adnoddau**: i gefnogi prosesau sicrwydd grantiau

  Yn y tymor hwy, rydym yn bwriadu mynd ar drywydd newid deddfwriaethol i ddileu'r gofyniad i gyflwyno cynlluniau cyfiawnder ieuenctid i'r BCI.

**Cwestiwn 12**
I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cynlluniau cyfiawnder ieuenctid a diweddariadau blynyddol? Esboniwch a oes unrhyw risgiau neu ganlyniadau anfwriadol rydych chi'n eu rhagweld gyda'r dull hwn.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 13**
Byddai'r diweddariad blynyddol arfaethedig yn cynnwys:

- cadarnhau cynllun cyfiawnder ieuenctid a gymeradwywyd yn lleol
- blaenoriaethau strategol
- crynodeb perfformiad
- risgiau allweddol
- staffio ac adnoddau

A oes unrhyw feysydd y dylid eu hychwanegu, eu dileu neu eu newid? Esboniwch eich ateb.

- [Testun rhydd]

**Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol**
Cyflwynwyd Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol (SINs) ym maes cyfiawnder ieuenctid yn 2021 gan y BCI i gefnogi goruchwyliaeth genedlaethol drwy ddarparu gwelededd o ddigwyddiadau difrifol a digwyddiadau diogelu'r cyhoedd ar draws y system cyfiawnder ieuenctid, gan helpu i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, deall tueddiadau cenedlaethol a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Yn 2022, daeth adrodd ar SINs yn orfodol ac fe'i cynhwyswyd fel amod o gyllid grant.

Fodd bynnag, rydym wedi clywed pryderon nad y broses bresennol yw'r ffordd fwyaf effeithiol na chymesur o gyflawni'r nodau hyn bob amser. Yn benodol, gall y gofyniad i roi gwybod am ddigwyddiadau o fewn 24 awr roi gofynion ychwanegol ar wasanaethau ar adeg pan mai ymateb i'r digwyddiad ddylai fod eu blaenoriaeth. Rydym hefyd wedi clywed nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy SINs bob amser yn cefnogi dysgu a gwella gwasanaethau mor effeithiol ag y gallai.

O ganlyniad, rydym yn cynnig dileu'r gofyniad i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyflwyno SIN o fewn 24 awr. Yn hytrach, byddai gwasanaethau'n parhau i gofnodi digwyddiadau difrifol yn lleol ac yn cynnal adolygiadau priodol yn unol â gweithdrefnau

diogelu lleol a chyfrifoldebau statudol.[6] Ar ôl cwblhau'r prosesau hynny, byddai gwasanaethau'n adrodd ar ganfyddiadau allweddol a'r hyn a ddysgwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r BCI yn rheolaidd, er enghraifft drwy adroddiadau chwarterol neu drefniadau adrodd blynyddol presennol.

Nod y dull hwn yw rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu a gwella, yn hytrach na hysbysu ar unwaith. Byddai'n caniatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar reoli digwyddiadau a chefnogi'r rheini yr effeithir arnynt, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar ôl i'r ffeithiau gael eu sefydlu ac ar ôl i unrhyw adolygiad lleol gael ei gwblhau.

Fel rhan o'r broses hon, byddai disgwyl i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid fyfyrio ar y canlynol:

- dysgu allweddol sy'n deillio o'r digwyddiad
- newidiadau a wnaed i bolisïau, arferion neu weithdrefnau lleol
- dysgu y gellid ei rannu ar draws y sector cyfiawnder ieuenctid
- materion neu themâu lle gallai camau gweithredu, canllawiau neu gymorth cenedlaethol fod o fudd

Byddai'r wybodaeth hon yn helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i nodi themâu a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i wella polisi, arweiniad a chefnogaeth ar draws y sector, gan leihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â gofynion hysbysu ar unwaith.

Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar allu gwasanaethau i ofyn am gyngor neu gymorth gan y BCI yn dilyn digwyddiad difrifol. Byddwn hefyd yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth i gysoni trefniadau adrodd â fframweithiau diogelu cenedlaethol presennol, gan gynnwys Awdurdod Amddiffyn Plant arfaethedig newydd yr Adran Addysg. Bydd hyn yn helpu i symleiddio'r gofynion adrodd ac yn lleihau dyblygu i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

[6] O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Plant 2004, mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth briodol i oedolion ar gyfer plant yn nalfa'r heddlu, diogelu a hyrwyddo lles plant wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rhaid i wasanaethau hefyd roi sylw dyledus i ganllawiau statudol fel Working Together to Safeguard Children 2026 (Lloegr) a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu 2022 (Cymru).

**Cwestiwn 14**
I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyflwyno Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol o fewn 24 awr ac yn hytrach adrodd ar ddysgu o ddigwyddiadau difrifol yn rheolaidd?

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw fanteision, risgiau neu ganlyniadau anfwriadol rydych chi'n eu rhagweld.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 15**
Wrth i ni ddatblygu dull mwy cymesur o adrodd a chydymffurfio, a oes unrhyw ofynion eraill y credwch y gellid eu symleiddio neu eu dileu? Rhowch fanylion.

- [Testun rhydd]

## Dod ag ef at ei gilydd – fframwaith perfformiad integredig

Mae'r cynigion a nodir yn Rhan A wedi'u cynllunio i greu dull mwy cydlynol o oruchwylio'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid – gan greu 'llinyn aur' cliriach ar draws disgwyliadau, mesurau perfformiad ac arolygu, gan sicrhau mwy o gysondeb a chyd-ddealltwriaeth o sut beth yw ansawdd uchel ar draws y system.

Mae'r ffeithlun isod yn dangos sut mae gwahanol elfennau'r fframwaith arfaethedig yn cyd-fynd â'i gilydd.



# Rhan B – Cyllid sefydlog a chynaliadwy

Yn *Cutting Youth Crime, Changing Young Lives*, ymrwymodd y llywodraeth i ddarparu mwy o sicrwydd cyllido i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac adolygu sut mae cyllid yn cael ei ddosbarthu i adlewyrchu anghenion lleol yn well. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid setliadau cyllido aml-flwyddyn ar waith tan 2028/29, gan roi mwy o sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a chyflawni lleol. Mae trefniadau gwahanol yn berthnasol yng Nghymru a Manceinion Fwyaf, lle mae rhywfaint o gyllid wedi cael ei ddatganoli (gan gynnwys cyllid Turnaround a remand) a lle mae trefniadau cyllido yn y dyfodol yn parhau i gael eu harchwilio gyda phartneriaid datganoledig.

Rydym nawr yn gofyn am farn ar gynigion ar gyfer diwygio cyllid yn y tymor hwy, gan gynnwys cyflwyno dull cyllido sy'n fwy seiliedig ar anghenion ac opsiynau ar gyfer cryfhau cyfraniadau partneriaid.

Mae'r cynigion hyn yn cynrychioli esblygiad yn hytrach nag ail-ddylunio'r system gyllido bresennol yn gyfan gwbl. Eu bwriad yw cefnogi'r diwygiadau ehangach a nodir yn yr ymgynghoriad hwn drwy sicrhau bod cyllid yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn effeithiol yn lleol yn well. Byddai unrhyw newidiadau i'r fformiwla gyllido yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2029.

## Y trefniadau cyllido presennol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo dros £100m y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid rhwng 2026/27 a 2028/29, gan gynnwys £15.4m y flwyddyn ar gyfer y rhaglen Turnaround. Mae ffrydiau cyllid ychwanegol ar gyfer dewisiadau remand a chymunedol amgen yn cael eu dyrannu ar wahân ac maent y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn adlewyrchu eu natur amlasiantaeth ac fe'i darperir drwy gyfuniad o:

- **Cyllid grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder** (a elwid gynt yn Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid a weinyddwyd gan y BCI). Mae hyn yn cyfrif am oddeutu traean o gyfanswm y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (tua £90m y flwyddyn), er bod y gyfran hon yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol (o 9% i 64%)
- **cyfraniadau partner statudol** sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cyllid sy'n weddill, gydag awdurdodau lleol yn cyfrannu fwyaf ochr yn ochr â'r heddlu, y gwasanaeth prawf a phartneriaid iechyd (a Llywodraeth Cymru yng Nghymru).

- **adnoddau a bennir yn lleol**, gan gynnwys cyfraniadau heb fod yn ariannol,  e.e. staff, adnoddau neu ymyriadau

**Ffigur 1. Cyllid y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid drwy gyfraniadau partner yn 2024/25.[7] Cyfanswm y cyllid = £308.5m (nid yw'n cynnwys cyllid Turnaround)**




## Yr Achos dros NewidMae sawl her gynhenid i'r trefniadau cyllido presennol:

- mae'r fethodoleg a ddefnyddir i ddosbarthu grantiau craidd a chyllid Turnaround wedi datblygu'n raddol dros amser ac nid yw bellach yn seiliedig ar ragamcan cyfredol o'r angen. Mae'n dal i fod yn seiliedig yn bennaf ar ddata poblogaeth ac amddifadedd o 2009 ymlaen, ac ar benderfyniadau a wnaed yn 2011/12 i gyfuno nifer o grantiau a oedd wedi'u glustnodi'n flaenorol fel mesur dros dro, trosiannol.

[7] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: Atodiadau ychwanegol 2024 i 2025

- mae natur gymhleth cyfiawnder ieuenctid wedi arwain at ddatblygu ffrydiau cyllido lluosog, yn aml gyda gofynion adrodd a chydymffurfio ar wahân. Er bod cronfeydd wedi'u clustnodi yn helpu i ddiogelu'r gwaith o gyflawni gwaith pwysig, gallant hefyd greu beichiau gweinyddol ar wasanaethau a chyfyngu ar hyblygrwydd lleol
- mae'r system yn dibynnu ar gyfraniadau dewisol gan bartneriaid ond nid oes disgwyliadau clir ynghylch maint na natur y cyllid na'r adnoddau hyn. Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi 'pŵer', nid gofyniad, i bartneriaid statudol gyfrannu cyllid, sydd wedi arwain at amrywiad rhwng ardaloedd o ran cymorth ariannol a chymorth amgen. Mae bylchau yn y gwasanaeth prawf a'r ddarpariaeth iechyd wedi cael eu nodi fel meysydd pryder a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau[8]. Yn benodol, mae pwysau ar y gweithlu yn y Gwasanaeth Prawf wedi ei gwneud yn anoddach i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid sicrhau mewnbwn cyson gan y gwasanaeth prawf. Mae hyn wedi cyfrannu at amrywiad yn lefel a pharhad y cymorth prawf sydd ar gael i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan arwain at anghysondebau o ran darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu nad yw'r trefniadau cyllido presennol yn adlewyrchu angen lleol, cymhlethdod gwasanaeth na blaenoriaethau polisi cyfredol yn gyson.

O ganlyniad, rydym yn cynnig diwygiadau i greu system gyllido fwy tryloyw a chynaliadwy sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r cynigion yn yr adran hon yn canolbwyntio ar:

- datblygu dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar anghenion ar gyfer dyraniadau cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- gwella sefydlogrwydd a thryloywder y trefniadau cyllido
- cryfhau disgwyliadau ac atebolrwydd o ran cyfraniadau partneriaeth

## Gwaith blaenorol i adolygu'r trefniadau cyllido presennol

Yn 2022, i ymateb i rai o'r heriau a amlinellir uchod, comisiynodd y BCI yr ymgynghoriaeth economeg, Economics by Design, i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r fformiwla bresennol ar gyfer cyllid grant craidd.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y dull dosbarthu presennol yn seiliedig ar ddata hen ffasiwn a phenderfyniadau hanesyddol, nad yw'n cyd-fynd yn ddigonol â sbardunau galw, ac mae'n arwain at amrywiad sylweddol mewn cyllid fesul plentyn ar draws ardaloedd, na ellir ei egluro gan wahaniaethau mewn angen. Canfu hefyd nad oes gan y fformiwla bresennol sylfaen dystiolaeth glir a chyfredol ar gyfer y ffactorau a ddefnyddir i ddyrannu cyllid, sy'n ei gwneud yn anodd dangos bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg.

[8] HMIP 2023 Annual Report: inspections of youth justice services

**Fformiwla arfaethedig Economics by Design**

Fel rhan o'i adolygiad, cynigiodd Economics by Design fformiwla newydd a gynlluniwyd i:

- ddyrannu cyllid yn seiliedig ar boblogaeth (plant 10-17 oed)
- cymhwyso addasiadau ar gyfer angen cymharol
- defnyddio data gwrthrychol sydd ar gael i'r cyhoedd
- osgoi cymhellion gwrthnysig drwy eithrio ffactorau sydd o fewn rheolaeth gwasanaethau

Mae'r fformiwla arfaethedig yn dyrannu cyllid mewn dau brif gam:

- llinell sylfaen y boblogaeth: dosberthir cyllid i ddechrau ar sail nifer y plant 10 i 17 oed ym mhob ardal
- addasu ar gyfer angen cymharol: yna caiff llinell sylfaen y boblogaeth ei haddasu i adlewyrchu amrywiadau mewn angen ar draws ardaloedd

Asesodd Economics by Design amrywiaeth o sbardunau posibl ar gyfer angel cymharol am wasanaethau cyfiawnder ieuenctid (gweler Pennod 7 o'r adroddiad Economics by Design: Adolygiad o fformiwla ariannu grant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid) a, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad, nododd dri dangosydd angen allweddol:

- maint poblogaeth plant (gyrrwr llinell sylfaen)
- tlodi plant, a fesurir gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant (IDACI)
- tai gorlawn

Roedd mesurau eraill (fel diweithdra ac incwm isel) yn bodloni'r meini prawf data ond ni chawsant eu nodi fel ysgogwyr allweddol.

Mae fformiwla ariannu Economics by Design yn creu **poblogaeth wedi'i haddasu yn ôl anghenion**, sy'n adlewyrchu maint y boblogaeth ifanc a lefel gymharol yr angen. Byddai cyllid wedyn yn cael ei ddyrannu yn ôl **cyfran pob ardal o gyfanswm y boblogaeth wedi'i haddasu yn ôl anghenion**.

I gael rhagor o fanylion, gallwch ddarllen dadansoddiad o ddyluniad y fformiwla ariannu yn Atodiad A neu ddarllen yr adroddiad llawn Economics by Design: Adolygiad o fformiwla ariannu grant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid .

**Datblygu cynigion ar gyfer diwygio**

Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, ystyriodd y llywodraeth amrywiaeth o opsiynau ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol.

Yn annibynnol ar y gwaith a wnaed gan Economics by Design, roeddem hefyd wedi edrych ar fodel cyfradd safonol arall lle byddai cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail swm penodol fesul plentyn gan ddefnyddio llwyth achosion cyfartalog gwasanaeth. Ein hasesiad yw nad yw hyn yn addas ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'r

cyllid yn cefnogi amrywiaeth eang o wasanaethau statudol ac ataliol sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol. Gan fod cymorth yn amrywio o ran dwyster ac yn cael ei ddarparu'n hyblyg ar draws gwasanaethau, mae'r gost fesul plentyn yn llai rhagweladwy nag mewn modelau mwy safonol.

O ganlyniad, rydym yn cynnig symud tuag at ddull seiliedig ar anghenion o ddyrannu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Byddai hyn yn golygu:

- dosberthir cyllid ar sail cyfuniad o faint y boblogaeth a lefelau cymharol yr angen am wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan ddefnyddio data gwrthrychol a thryloyw
- bod cyllid yn cael ei ddyrannu'n decach ac yn fwy tryloyw, gan sicrhau bod adnoddau'n adlewyrchu gwahaniaethau yn y galw ar draws ardaloedd yn well
- bod ffactorau sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol gwasanaethau (e.e. nifer y plant sy'n ymuno â'r system) yn cael eu heithrio, er mwyn lleihau'r risg o gymhellion gwrthnysig yn dylanwadu ar ymarfer neu ganlyniadau cyllido

Er na fydd unrhyw fformiwla'n cofnodi cymhlethdod y galw yn llawn, mae symud i fodel sy'n seiliedig ar anghenion yn welliant sylweddol ar y system bresennol drwy ddarparu sylfaen sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllido, a chefnogi dosbarthiad tecach o gyllid fesul plentyn ar draws gwasanaethau. Mae mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar anghenion hefyd yn cyd-fynd ag arferion ehangach y llywodraeth mewn gwasanaethau plant, fel y Fformiwla Gyllido Genedlaethol ar gyfer ysgolion a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol plant, sy'n defnyddio mesurau sy'n seiliedig ar boblogaeth ac amddifadedd, yn hytrach na dibynnu ar ddyraniadau hanesyddol.

**Dysgu o waith blaenorol**

Yn 2025, fe wnaethom rannu model cyllido arfaethedig Economics by Design â rhanddeiliaid yn y sector gyda'r bwriad o gyflwyno dull dyrannu newydd o 2026/27 ymlaen. Er bod cytundeb cryf y dylid diwygio'r fformiwla bresennol, codwyd pryderon ynghylch:

- i ba raddau y mae'r model yn adlewyrchu cymhlethdod y gwasanaeth
- a yw'n cyfrif am gostau busnes na ellir eu hosgoi
- effaith bosibl ailddosbarthu cyllid ar ddarparu gwasanaethau
- cyflymder gweithredu
- a oedd gweithgarwch atal a dargyfeirio yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn yr asesiad o angen

O ganlyniad, ni wnaethom weithredu fformiwla ariannu newydd yn ystod cyfnod presennol yr adolygiad o wariant. Fodd bynnag, roeddem wedi ymrwymo i ymgynghori â'r sector cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid cyllido i ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio yn y tymor hwy.

**Adlewyrchu costau busnes na ellir eu hosgoi**
Mae rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch a fyddai fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar anghenion yn adlewyrchu'n ddigonol y costau busnes nad oes modd eu hosgoi sy'n wynebu pob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Er bod lefelau'r galw a'r cymhlethdod yn amrywio rhwng ardaloedd, mae gwasanaethau hefyd yn wynebu amrywiaeth o gostau gweithredu sefydlog nad ydynt yn amrywio'n sylweddol o ran llwyth achosion. Gall effaith y costau hyn fod yn arbennig o arwyddocaol i wasanaethau llai, sy'n aml yn wynebu costau gweithredu sefydlog tebyg i wasanaethau mwy er eu bod yn goruchwylio niferoedd is o blant.

Wrth i ni ddatblygu fformiwla cyllido yn y dyfodol, un opsiwn fyddai darparu dyraniad safonol i bob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid tuag at gostau busnes craidd, gyda gweddill cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei ddosbarthu yn ôl angen cymharol.

## Egwyddorion ar gyfer diwygio

Rydym nawr yn ymgynghori ar fwriad y llywodraeth i gyflwyno fformiwla gyllido newydd o Ebrill 2029, dan arweiniad yr egwyddorion canlynol:

- dosbarthu cyllid ledled Cymru a Lloegr yn ôl yr angen
- methodoleg glir, dryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer nodi ffactorau sy'n sbarduno angen
- defnyddio data cyfredol, credadwy sydd ar gael i'r cyhoedd ar y lefel ddaearyddol briodol, y gellir ei gymharu ledled Cymru a Lloegr
- cydnabod pwysigrwydd gweithgarwch ymyrryd yn gynnar, atal a dargyfeirio ochr yn ochr â'r llwyth achosion statudol wrth asesu angen – lle mae data addas ar gael
- ystyried amrywiadau rhanbarthol mewn costau i adlewyrchu gwahaniaethau mewn costau llafur a theithio, ar sail y data gorau sydd ar gael adeg dylunio
- adolygiad cyfnodol i ystyried diweddaru'r fformiwla a'i ddata sylfaenol

Gan fod y dull dyrannu presennol yn hen iawn a'i fod wedi bod ar waith ers dros ddegawd, bydd cyflwyno unrhyw fformiwla newydd yn arwain at ailddosbarthu cyllid ar draws ardaloedd. Byddai rhai gwasanaethau'n cael cyfran fwy o gyllid, tra byddai eraill yn cael cyfran lai. Yr ardaloedd hynny lle mae cyllid grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'u cyllideb gyffredinol fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan unrhyw newid.

Ni fyddai newidiadau i'r fformiwla gyllido yn cael eu cyflwyno cyn Ebrill 2029 ac rydym yn bwriadu ymgynghori eto ar ddyluniad manwl y fformiwla cyn cyfnod nesaf yr adolygiad o wariant.

**Cwestiwn 16**
A ydych yn cytuno y dylem ddiwygio'r fformiwla ariannu, gan gydnabod ei bod yn debygol y bydd yn arwain at ailddosbarthu cyllid yn sylweddol ar draws gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr?

- Cytuno
- Anghytuno
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 17**
A ydych yn cytuno mai'r egwyddorion a amlinellir uchod yw'r rhai cywir i lywio dyluniad fformiwla ariannu newydd?

- Cytuno
- Anghytuno
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 18**
Ydych chi'n cytuno mai dyrannu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru a Lloegr ar sail lefelau angen cymharol yw'r dull mwyaf priodol? Esboniwch eich ateb.

- Cytuno
- Anghytuno
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 19**
Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at gyfyngiadau defnyddio data newydd-ddyfodiaid fel procsi ar gyfer galw ac angen. Ar wahân i ddata dargyfeirio a gesglir ar hyn o bryd gan y BCI, pa setiau data amgen neu atodol y gellid eu hystyried i ddarparu mesur cynhwysfawr o angen yn eich ardal leol? Wrth ddarparu setiau data amgen neu atodol, gwnewch yn siŵr bod unrhyw ddata arfaethedig yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- ar gael ar draws Cymru a Lloegr
- yn gallu cael ei ddadgyfuno i lefelau lleol
- data cyhoeddedig
- diweddar / cyfredol
- yn debygol o gael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn y dyfodol
- heb gael ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i osgoi cymhellion gwrthnysig
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 20**
I ba raddau ydych chi'n cefnogi darparu dyraniad safonol i'r holl wasanaethau cyfiawnder ieuenctid tuag at gostau busnes craidd cyn i'r cyllid sy'n weddill gael ei ddosbarthu drwy'r fformiwla ariannu? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

- Cefnogi
- Niwtral
- Gwrthwynebu
- [Testun rhydd]

## Rheoli effaith newid

Os cyflwynir fformiwla ariannu newydd, mae angen i ni ystyried hefyd sut y caiff unrhyw newidiadau eu rheoli'n ymarferol.

Gwyddom fod angen sefydlogrwydd digonol ar arweinwyr a phartneriaethau lleol i gynllunio gwasanaethau, rheoli gweithluoedd a sicrhau gwelliant hirdymor. O ganlyniad, bydd angen i unrhyw newid i fodel cyllido newydd gydbwyso tegwch, sefydlogrwydd a gallu ardaloedd lleol i addasu'n effeithiol i newid.

Yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Gwariant nesaf, byddwn yn ystyried y ffordd orau o reoli effaith newid. Lle nad oes cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi mesurau diogelu trosiannol (fel terfynau isaf neu gyllid byffer), efallai y bydd angen cyflwyno newidiadau'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

O ganlyniad, mae cyfaddawd cynhenid rhwng rhoi newidiadau ar waith yn gyflymach – penderfynu ar ddyraniad cyllid cenedlaethol tecach yn gynt – a chyflwyno newidiadau'n raddol – cefnogi sefydlogrwydd ond gohirio'r newid.

Bydd angen i ni hefyd ystyried pa mor aml y dylid diweddaru'r data sylfaenol i sicrhau bod y fformiwla'n parhau i adlewyrchu lefelau angen sy'n newid, a sut byddai'r cylchoedd adolygu hyn yn rhyngweithio â gweithredu'r fformiwla.

**Cwestiwn 21**
Os cyflwynir fformiwla ariannu newydd, pa ddull o reoli'r trawsnewid fyddai orau gennych?

**Opsiwn A: Gweithredu'n gyflymach, er enghraifft dros 3 blynedd** – byddai gwasanaethau'n cyrraedd eu dyraniadau targed yn gynt a byddai cyllid cenedlaethol yn cael ei ddosbarthu yn unol ag angen lleol – ond gallai cyflymder cyflymach y newid greu ansefydlogrwydd i rai gwasanaethau, yn enwedig lle byddai angen i lefelau cyllid addasu'n gyflymach i alinio â'r fformiwla.

**Opsiwn B: Gweithredu graddol, er enghraifft dros 6 blynedd** – byddai newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hwy, gan roi mwy o sefydlogrwydd i wasanaethau, ond gan ohirio symud i ddosbarthiad sy'n gwbl seiliedig ar anghenion.

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau ymarferol o sut byddai gwahanol gyfraddau newid yn effeithio ar allu eich gwasanaeth i gynllunio, rheoli adnoddau a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

- Opsiwn A
- Opsiwn B
- [Testun rhydd]

## Cyllid cyfiawnder ieuenctid sydd wedi'i glustnodi ar hyn o bryd

Fel uchod, gwyddom fod trefniadau blaenorol ar gyfer dyfarnu cyllid grant i'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid - gyda'r BCI yn dosbarthu'r grant craidd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dosbarthu cyllid Turnaround - wedi golygu prosesau adrodd a sicrhau grantiau ar wahân, a allai arwain at feichiau gweinyddol diangen. Wrth drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddosbarthu cyllid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym am ystyried a ellid symleiddio prosesau cyllid grant craidd a Turnaround er mwyn lleihau'r baich gweinyddol a gwella hyblygrwydd.

Gan fod trefniadau cyllido yn wahanol yng Nghymru a Manceinion Fwyaf, lle mae cyllid Turnaround a remand wedi cael ei ddatganoli a threfniadau yn y dyfodol yn dal i gael eu trafod â phartneriaid datganoledig, mae'r adran isod yn berthnasol yn bennaf i wasanaethau a fydd yn parhau i gael grant craidd a chyllid Turnaround yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Cydgrynhoi'r grant craidd cyfiawnder ieuenctid a'r grant Turnaround**
Mae dyraniad cyllid Turnaround i wasanaethau yn seiliedig yn bennaf ar yr un fformiwla ariannu a ddefnyddir ar gyfer y grant craidd. Fodd bynnag, fe'i darperir drwy gytundeb grant ar wahân, gydag amodau a gofynion adrodd penodol yn gysylltiedig â'r rhaglen.

Un o’r prif resymau dros sefydlu’r rhaglen Turnaround yn 2022 oedd atal risgiau ymysg plant rhag gwaethygu. Mae cael cytundebau grant ar wahân yn sicrhau bod adnoddau wedi’u targedu ar gyfer gweithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar yn cael eu diogelu ac nad ydynt yn cael eu hailflaenoriaethu. Fodd bynnag, wrth ystyried trefniadau grant yn y dyfodol, rydym yn ceisio cydbwyso diogelu gweithgarwch Turnaround â mwy o hyblygrwydd lleol a llai o feichiau gweinyddol.

O ganlyniad, rydym yn ceisio barn ar dri opsiwn posibl i gyfuno cyllid Turnaround a chyllid grant craidd yn un ffrwd ariannu.

**Cwestiwn 22**
Pa rai o’r trefniadau grant canlynol yn y dyfodol fyddai’n cefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn effeithiol yn eich ardal leol?

**Opsiwn A**: Cynnal y trefniant presennol (cytundebau ar wahân ar gyfer y grant craidd a chyllid Turnaround).

**Opsiwn B:** Cyfuno grant craidd a chyllid Turnaround i ffurfio un cytundeb grant ond cynnal dyraniad ar gyfer darparu gweithgarwch ymyrraeth yn gynnar (a ddarperir ar hyn o bryd drwy’r rhaglen Turnaround).

**Opsiwn C:** Cyfuno cyllid Turnaround i’r grant craidd, heb unrhyw fesurau clustnodi ar gyfer ymyrraeth yn gynnar a rhoi’r hyblygrwydd i awdurdodau lleol reoli hyn yn lleol.

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw risgiau neu fuddion posibl. Os byddwch yn dewis Opsiwn C, rhowch sylwadau ar yr effaith bosibl ar weithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar pe na bai cyllid yn cael ei glustnodi mwyach.

- Opsiwn A
- Opsiwn B
- Opsiwn C
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 23**
Mae’r trefniadau grant presennol ar gyfer y grant craidd a chyllid Turnaround ar waith tan fis Mawrth 2029. Fodd bynnag, pe bai Opsiwn B (cyfuno grant craidd a chyllid Turnaround i ffurfio un cytundeb grant) yn cael ei roi ar waith, pryd y dylai’r newid hwn ddod i rym? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw risgiau neu fuddion posibl.

**Opsiwn A**: cyn gynted â phosibl (gwneud addasiadau i’r trefniadau grant presennol)

**Opsiwn B**: ar ôl cyfnod presennol yr adolygiad o wariant (dim cynharach nag Ebrill 2029)

- Opsiwn A
- Opsiwn B
- [Testun rhydd]

## Cryfhau cyfraniadau Partneriaeth

Un o amcanion canolog y diwygiadau hyn yw cryfhau gweithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd ar y cyd am ganlyniadau cyfiawnder ieuenctid. Mae cyflawni effeithiol yn dibynnu ar gyfraniad cydgysylltiedig partneriaid statudol, ac mae trefniadau cyllido’n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio sut mae’r cyfraniadau hynny’n cael eu sicrhau a’u cynnal.

O dan y trefniadau presennol, mae gan bartneriaid statudol ddyletswydd i gydweithio i atal troseddu ac aildroseddu, ond nid oes disgwyliad clir ynghylch lefel na natur eu cyfraniadau ariannol nac adnoddau. O ganlyniad, mae amrywiad sylweddol rhwng ardaloedd o ran cyllid a chymorth ymarferol.

Mae tystiolaeth o arolygiadau ac adborth gan y sector yn awgrymu y gall bylchau neu anghysondebau yng nghyfraniadau partneriaid effeithio’n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys mynediad at wasanaethau allweddol fel darpariaeth iechyd, cymorth addysg a phontio effeithiol i wasanaethau oedolion.

Bwriad y cynigion yn Rhan A yr ymgynghoriad hwn yw cryfhau disgwyliadau ac atebolrwydd ar draws y bartneriaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd gosod disgwyliadau clir ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau cyfraniadau cyson yn ymarferol. Credwn fod achos dros gryfhau sut mae cyfraniadau partneriaeth (cyllid ac adnoddau) yn cael eu deall, eu cytuno a’u monitro ar lefel bwrdd rheoli.

O ganlyniad, rydym yn gofyn am farn ar sut y gellid gwneud cyfraniadau ariannol ac adnoddau gan bartneriaid yn fwy tryloyw a chyson. Un opsiwn fyddai cynyddu gwelededd cyfraniadau partneriaid, ond mae gennym ddiddordeb hefyd mewn gweld a allai mecanweithiau eraill helpu i sicrhau cyfraniadau partner mwy cyson a chynaliadwy.

**Cwestiwn 24**
I ba raddau ydych chi'n cytuno y byddai mwy o amlygrwydd cyhoeddus i gyfraniadau partneriaid (gan gynnwys sut maent yn amrywio rhwng ardaloedd) yn cryfhau atebolrwydd, yn cefnogi byrddau rheoli i ddal partneriaid i gyfrif, ac yn annog partneriaid i gyrraedd lefelau disgwyliedig o ymgysylltu a chyfraniadau cyllido? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 25**
Pa fesurau ychwanegol fyddai'n helpu orau i gryfhau cyfraniadau partneriaid yn eich ardal?

- [Testun rhydd]

# Atodiad A: Economics By Design – Crynodeb o’r Fformiwla Ariannu Grant

Yn 2022, comisiynodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gontractwr allanol, Economics by Design, i ddatblygu fformiwla newydd sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y grant craidd ar ôl i’r Gweinidog a oedd yn gyfrifol ar y pryd ofyn am adolygiad o sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu.

## Fformiwla arfaethedig Economics by Design

Fel rhan o’u comisiwn, nododd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y dylai fformiwla newydd fod yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- **Tegwch yn Gyntaf:** Ni ddylai'r fformiwla gynnwys unrhyw ffactorau y gallai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt eu hunain i atal unrhyw demtasiwn ar wasanaethau i newid eu hymddygiad i effeithio ar gyllid, a elwir hefyd yn “gymhellion gwrthnysig”
- **Tryloywder ac Ymddiriedaeth:** Dylai’r holl ddata a ddefnyddir fod yn gadarn (dibynadwy) ac ar gael i’r cyhoedd, fel bod yr holl broses yn agored ac yn ddealladwy
- **Gwahaniaethau Cost:** Dylai’r fformiwla ystyried amrywiadau mewn costau penodol (fel cyflogau staff) ar draws gwahanol leoliadau. Fodd bynnag, adeg y dylunio, nid oedd yn bosibl cynnwys y ffactor hwn oherwydd nad oedd ffordd ddibynadwy a chyson o fesur gwahaniaethau cost ar draws gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr

Nod y fformiwla a gynlluniwyd gan Economics by Design oedd defnyddio dull sy’n seiliedig ar dystiolaeth i lywio’r gwaith o ddyrannu’r grant craidd, gan sicrhau bod pob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn cael cyllid a oedd yn adlewyrchu angen cymharol ar sail y data sydd ar gael.

### Dylunio fformiwlâu

*Cam 1: Dechrau gyda nifer y plant*

Y man cychwyn ar gyfer cyllid a ddyrennir i bob gwasanaeth yw nifer y plant rhwng 10 ac 17 oed (gan ddefnyddio ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Pe bai gan bob gwasanaeth yr un anghenion, byddai cyllid yn cael ei rannu’n gyfartal ar sail hyn.

*Cam 2: Addasu ar gyfer ‘angen’*

Ond gwyddom fod gan wahanol wasanaethau wahanol lefelau o angen. Mewn rhai mannau, mae mwy o blant yn ymuno â’r system gyfiawnder nag eraill. O ganlyniad,

cytunwyd bod poblogaeth "wedi'i haddasu yn ôl anghenion" yn cael ei defnyddio yn hytrach na chyfrif niferoedd yn unig.

Fodd bynnag, nid oes mesur swyddogol o anghenion cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru a Lloegr.

*Cam 3: Defnyddio nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf (FTE) fel procsi*
Er mwyn nodi'r hyn sy'n sbarduno'r angen am gyfiawnder ieuenctid mewn gwasanaethau, roedd Economics by Design angen data a oedd yn bodloni egwyddorion allweddol tegwch a thryloywder, ac roedd yn:

- Cael ei gasglu'n gyson ar draws yr holl wasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- Cael ei gyhoeddi'n rheolaidd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Tryloyw a chymaradwy

Arweiniodd hyn at Economics by Design yn defnyddio nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf â'r system cyfiawnder ieuenctid fel dewis arall neu fel 'procsi' ar gyfer anghenion cyfiawnder ieuenctid. Mae data FTE yn dangos faint o blant rhwng 10 ac 17 oed sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf, ac sy'n bodloni'r meini prawf a restrir uchod.

Fel procsi, nid FTE yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu cyllid yn uniongyrchol, ond roedd yn cael ei ddefnyddio i nodi ffactorau gwrthrychol a fyddai'n dylanwadu ar sut roedd cyllid yn cael ei ddosbarthu.

*Cam 4: Dewis y pethau sy'n sbarduno'r 'angen' go iawn*
Cynhaliodd Economics by Design adolygiad penodol o waith ymchwil i nodi'r ffactorau allweddol sydd â'r cysylltiad agosaf â nifer y plant sy'n ymuno â'r system gyfiawnder (gweler Pennod 7 yr adroddiad Economics by Design: Adolygiad o fformiwla ariannu grant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).

Defnyddiwyd dull ystadegol o'r enw dadansoddiad atchweliad i ganfod pa ffactorau oedd â'r berthynas gryfaf â thueddiadau FTE. Helpodd hyn i nodi ffactorau gwrthrychol a allai lywio dyraniadau'n deg.

Gwnaethant wirio bod y data ar gyfer y ffactorau hyn:

- Ar gael ar draws Cymru a Lloegr
- Yn gallu cael ei ddadansoddi yn ôl ardal leol (gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid neu lai)
- Yn ddiweddar / cyfredol
- Yn debygol o gael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn y dyfodol

O ganlyniad, dewiswyd dau ddangosydd allweddol oherwydd y canfuwyd bod ganddynt berthynas sylweddol â nifer y plant sy'n ymuno â'r system gyfiawnder a'u bod yn bodloni'r holl feini prawf uchod:

1. **Mynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant (IDACI):** Mesur gan y llywodraeth sy'n dangos faint o blant mewn ardal sy'n cael eu magu ar aelwydydd incwm isel
2. **Tai Gorlawn:** Mae hyn yn dangos faint o deuluoedd sy'n byw mewn cartrefi sy'n rhy fach i nifer y bobl sy'n byw ynddynt

*Cam 5: Creu 'Pwysau Anghenion'*
Er mwyn penderfynu faint o gyllid y dylai pob gwasanaeth ei gael, edrychodd Economics by Design ar y ddau ffactor allweddol a nodwyd uchod sy'n dylanwadu ar FTE i gyfrifo 'pwysau anghenion' ar gyfer pob maes a oedd yn adlewyrchu faint o gymorth yr oedd pob gwasanaeth yn debygol o fod ei angen.

*Cam 6: Creu 'Mynegai Anghenion'*
Yna, cafodd y "pwysau anghenion" ei gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws yr holl wasanaethau i greu "mynegai anghenion" - ffordd o weld a oes angen mwy (neu lai) o gymorth ar wasanaeth cyfiawnder ieuenctid na'r cyfartaledd.

*Cam 7: Addasu ar gyfer Poblogaethau Lleol*
Lluoswyd nifer y bobl ifanc 10 i 17 oed ym mhob ardal gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid â'r mynegai anghenion hwnnw. Creodd hyn "boblogaeth wedi'i haddasu yn ôl anghenion" sy'n adlewyrchiad gwell o faint o blant y gallai fod angen cymorth arnynt yn yr ardal honno.

Roedd cyfran cyfanswm y grant a ddyrannwyd i bob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn seiliedig ar sut roedd ei boblogaeth wedi'i haddasu yn ôl anghenion yn cymharu â'r cyfanswm ar draws pob ardal.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd yn y papur ymgynghori hwn.

## Rhan A: Perfformiad a Goruchwyliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

**Cwestiwn 1:** A ddylai Safonau Cenedlaethol barhau i gael eu strwythuro o amgylch camau'r system (Opsiwn 1), neu gael eu hailstrwythuro'n feysydd thematig gydag egwyddorion trawsbynciol (Opsiwn 2)? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**Cwestiwn 2:** Os bydd Safonau Cenedlaethol yn parhau i fod yn seiliedig ar gamau cyfiawnder ieuenctid (Opsiwn 1), a ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddatblygu safonau newydd ar Ddioddefwyr, Ymyrraeth Gynnar ac Atal, ac i ddiweddaru OOCRs i adlewyrchu arferion da cyfoes? Pa newidiadau neu ychwanegiadau eraill fyddech chi'n disgwyl eu gweld i gamau'r Safon Genedlaethol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu realiti'r ymarfer presennol?

**Cwestiwn 3:** Os caiff Safonau Cenedlaethol eu hailstrwythuro o amgylch meysydd thematig (Opsiwn 2), i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r enghreifftiau o feysydd thematig ac egwyddorion trawsbynciol a gynigir? Pa ychwanegiadau neu newidiadau fyddech chi'n eu hawgrymu i adlewyrchu realiti'r ymarfer presennol?

**Cwestiwn 4:** A ddylid cynnwys anghymesuredd fel safon/maes thematig unigol neu ei integreiddio drwy'r Safonau Cenedlaethol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**Cwestiwn 5:** I ba raddau ydych chi'n cytuno â chyflwyno Fframwaith Perfformiad Ansawdd i ddiffinio ymarfer o ansawdd uchel a chefnogi gwelliant parhaus? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys a oes unrhyw risgiau neu heriau allweddol rydych chi'n eu rhagweld a sut gellid lliniaru'r rhain.

**Cwestiwn 6:** Pa feysydd neu agweddau ar ymarfer cyfiawnder ieuenctid ddylai'r fframwaith eu cynnwys i fod fwyaf defnyddiol i'ch ardal leol?

**Cwestiwn 7:** I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid trefnu gwybodaeth am berfformiad a'i defnyddio ar draws tair haen:

- Y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid
- Byrddau rheoli a phartneriaid
- Iechyd y system

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw risgiau, buddion neu heriau gweithredu.

**Cwestiwn 8:** Ar hyn o bryd rydym yn casglu 14 DPA cenedlaethol ac ystod o wybodaeth arall am berfformiad. Wrth i ni ddatblygu trefniadau goruchwylio yn y dyfodol:

- Pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer deall perfformiad gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid unigol?
- Pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer deall effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth lleol?
- Pa fesurau sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer deall iechyd y system cyfiawnder ieuenctid yn gyffredinol?
- A oes unrhyw fesurau y dylid eu symud, eu dileu neu eu hychwanegu?

**Cwestiwn 9:** I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai lleisiau plant, dioddefwyr a theuluoedd fod yn rhan o drefniadau goruchwylio perfformiad lleol a chenedlaethol? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys sut gellid cofnodi'r safbwyntiau hyn mewn ffordd ystyrlon a chymesur.

**Cwestiwn 10:** I ba raddau mae'r trefniadau arfaethedig yn adlewyrchu gofynion goruchwylio ac atebolrwydd cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, a pha ystyriaethau ychwanegol sydd eu hangen?

**Cwestiwn 11:** Pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddylunio trefniadau hunanasesu lleol i sicrhau eu bod yn ystyrlon, yn gymesur ac yn cefnogi gwelliant mewn ymarfer? Dylech gynnwys unrhyw risgiau, heriau neu ganlyniadau anfwriadol y dylid eu hosgoi.

**Cwestiwn 12:** I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cynlluniau cyfiawnder ieuenctid a diweddariadau blynyddol? Esboniwch a oes unrhyw risgiau neu ganlyniadau anfwriadol rydych chi'n eu rhagweld gyda'r dull hwn.

**Cwestiwn 13:** Byddai'r diweddariad blynyddol arfaethedig yn cynnwys:

- cadarnhau cynllun cyfiawnder ieuenctid a gymeradwywyd yn lleol
- blaenoriaethau strategol
- crynodeb perfformiad
- risgiau allweddol
- staffio ac adnoddau

A oes unrhyw feysydd y dylid eu hychwanegu, eu dileu neu eu newid? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 14:** I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyflwyno Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol o fewn 24 awr ac yn hytrach adrodd ar ddysgu o ddigwyddiadau difrifol yn rheolaidd? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw fanteision, risgiau neu ganlyniadau anfwriadol rydych chi'n eu rhagweld.

**Cwestiwn 15:** Wrth i ni ddatblygu dull mwy cymesur o adrodd a chydymffurfio, a oes unrhyw ofynion eraill y credwch y gellid eu symleiddio neu eu dileu? Rhowch fanylion.

## Rhan B: Cyllid sefydlog a chynaliadwy

**Cwestiwn 16:** A ydych yn cytuno y dylem ddiwygio'r fformiwla ariannu, gan gydnabod ei bod yn debygol y bydd yn arwain at ailddosbarthu cyllid yn sylweddol ar draws gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr?

**Cwestiwn 17:** A ydych yn cytuno mai'r egwyddorion a amlinellir uchod yw'r rhai cywir i lywio dyluniad fformiwla ariannu newydd?

**Cwestiwn 18:** Ydych chi'n cytuno mai dyrannu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru a Lloegr ar sail lefelau angen cymharol yw'r dull mwyaf priodol? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 19:** Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at gyfyngiadau defnyddio data newydd-ddyfodiaid fel procsi ar gyfer galw ac angen. Ar wahân i ddata dargyfeirio a gesglir ar hyn o bryd gan y BCI, pa setiau data amgen neu atodol y gellid eu hystyried i ddarparu mesur cynhwysfawr o angen yn eich ardal leol? Wrth ddarparu setiau data amgen neu atodol, gwnewch yn siŵr bod unrhyw ddata arfaethedig yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- ar gael ar draws Cymru a Lloegr
- yn gallu cael ei ddadgyfuno i lefelau lleol
- data cyhoeddedig
- diweddar / cyfredol
- yn debygol o gael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn y dyfodol
- heb gael ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i osgoi cymhellion gwrthnysig

**Cwestiwn 20:** I ba raddau ydych chi'n cefnogi darparu dyraniad safonol i'r holl wasanaethau cyfiawnder ieuenctid tuag at gostau busnes craidd cyn i'r cyllid sy'n weddill gael ei ddosbarthu drwy'r fformiwla ariannu? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**Cwestiwn 21:** Os cyflwynir fformiwla ariannu newydd, pa ddull o reoli'r trawsnewid fyddai orau gennych?

- Opsiwn A: Gweithredu'n gyflymach, er enghraifft dros 3 blynedd – byddai gwasanaethau'n cyrraedd eu dyraniadau targed yn gynt a byddai cyllid cenedlaethol yn cael ei ddosbarthu yn unol ag angen lleol – ond gallai cyflymder cyflymach y newid greu ansefydlogrwydd i rai gwasanaethau, yn enwedig lle byddai angen i lefelau cyllid addasu'n gyflymach i alinio â'r fformiwla.
- Opsiwn B: Gweithredu graddol, er enghraifft dros 6 blynedd – byddai newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hwy, gan roi mwy o sefydlogrwydd i wasanaethau, ond gan ohirio symud i ddosbarthiad sy'n gwbl seiliedig ar anghenion.

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau ymarferol o sut byddai gwahanol gyfraddau newid yn effeithio ar allu eich gwasanaeth i gynllunio, rheoli adnoddau a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

**Cwestiwn 22:** Pa rai o'r trefniadau grant canlynol yn y dyfodol fyddai'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn effeithiol yn eich ardal leol?

- Opsiwn A: Cynnal y trefniant presennol (cytundebau ar wahân ar gyfer y grant craidd a chyllid Turnaround).
- Opsiwn B: Cyfuno grant craidd a chyllid Turnaround i ffurfio un cytundeb grant ond cynnal dyraniad ar gyfer darparu gweithgarwch ymyrraeth yn gynnar (a ddarperir ar hyn o bryd drwy'r rhaglen Turnaround).
- Opsiwn C: Cyfuno cyllid Turnaround i'r grant craidd, heb unrhyw fesurau clustnodi ar gyfer ymyrraeth yn gynnar a rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol reoli hyn yn lleol.

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw risgiau neu fuddion posibl. Os byddwch yn dewis Opsiwn C, rhowch sylwadau ar yr effaith bosibl ar weithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar pe na bai cyllid yn cael ei glustnodi mwyach.

**Cwestiwn 23:** Mae'r trefniadau grant presennol ar gyfer y grant craidd a chyllid Turnaround ar waith tan fis Mawrth 2029. Fodd bynnag, pe bai Opsiwn B (cyfuno grant craidd a chyllid Turnaround i ffurfio un cytundeb grant) yn cael ei roi ar waith, pryd y dylai'r newid hwn ddod i rym? Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw risgiau neu fuddion posibl.

- Opsiwn A: cyn gynted â phosibl (gwneud addasiadau i'r trefniadau grant presennol)
- Opsiwn B: ar ôl cyfnod presennol yr adolygiad o wariant (dim cynharach nag Ebrill 2029)

**Cwestiwn 24:** I ba raddau ydych chi'n cytuno y byddai mwy o amlygrwydd cyhoeddus i gyfraniadau partneriaid (gan gynnwys sut maent yn amrywio rhwng ardaloedd) yn cryfhau atebolrwydd, yn cefnogi byrddau rheoli i ddal partneriaid i gyfrif, ac yn annog partneriaid i gyrraedd lefelau disgwyliedig o ymgysylltu a chyfraniadau cyllido? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**Cwestiwn 25:** Pa fesurau ychwanegol fyddai'n helpu orau i gryfhau cyfraniadau partneriaid yn eich ardal?

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych chi'n ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn (ee aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut mae ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 11 Medi drwy Consult Justice:
https://consult.justice.gov.uk/youth-justice-policy/funding-youth-justice-services

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn.

**Youth Justice Policy Team**
**Ministry of Justice**
**102 Petty France**
**London SW1H 9AJ**

ac mae ar gael ar-lein hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill hefyd.

## Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn dri mis ar ôl diwrnod cau'r ymgynghoriad. Bydd yr ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio ag ymrwymiadau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech chi egluro wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn ni'n cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Datganiad Cydraddoldeb

## Cydraddoldeb

Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt, a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

Mae angen ystyried rhoi "sylw dyledus" yn erbyn y naw nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Y naw nodwedd warchodedig yw hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, a beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n amlinellu rhywfaint o'r data sydd ar gael mewn perthynas ag anabledd a hil plant yn y system cyfiawnder ieuenctid ac mae'n adeiladu ar Ddatganiad Cydraddoldeb blaenorol ym Mhapur Gwyn Cyfiawnder Ieuenctid y Llywodraeth: '*Cutting Youth Crime. Changing Young Lives*.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet sydd i'w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i: MoJYouthJusticeComms@justice.gov.uk